


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015

## Adroddiad i'r Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru

Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015

Ymchwil ar ran Is-Adran Amgueddfeydd,
Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru

Cynhyrchwyd gan Tom Newman a Rhaglen Datblygu Amgueddfeydd De Orllewin Lloegr ar ran yr Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru

Diolchiadau:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwaith a oedd ynghlwm wrth gasglu'r data hwn, ac mae'n ddiolchgar i'r holl amgueddfeydd a gyfrannodd i'r arolwg.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gael os gofynnir amdanynt.

Manylion cyswllt

Tîm Datblygu Amgueddfeydd
Is-Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

E-bost: mald@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 062 2112
Gwefan: www.gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/?skip=1&lang=cy

Darparwyd y llun ar y clawr gan Croeso Cymru
© Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru

OGL ISBN digidol 978 1 4734 6146 8 © Hawlfraint y Goron 2016 WG27251

# Cynnwys

Rhagair

1. Crynodeb

2. Trosolwg

3. Amgueddfeydd i Bawb

4. Casgliad i'r Genedl

5. Gweithio'n Effeithiol

6. Y gwasanaethau a ddarperir gan Amgueddfa Cymru

Atodiadau:

A. Rhestr o amgueddfeydd yn ôl eu maint

B. Datganiadau Cwmpas

C. Grŵp craidd o amgueddfeydd sydd wedi cyflwyno data ar gyfer pob arolwg

# Croeso...

i drydydd adroddiad Llywodraeth Cymru am ei harolwg o amgueddfeydd. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan amgueddfeydd o bob math ac o bob maint ym mhob cwr o Gymru yn rhoi darlun pwysig inni o'r gwaith clodwiw y mae amgueddfeydd yn ei wneud i ofalu am ein treftadaeth ac i ddiwallu anghenion eu cymunedau. Mae llawer o amgueddfeydd yn mynd ati i geisio ennyn diddordeb ymhlith cynulleidfaoedd gwahanol, a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad arloesol y Farwnes Kay Andrews ar sut y gall diwylliant fod yn fodd i roi gwell cyfleoedd mewn bywyd i bobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rydym yn ceisio sicrhau, drwy'n rhaglen Cyfuno, fod ein hamgueddfeydd nid yn unig o fewn cyrraedd i bawb, ond eu bod hefyd yn gyfleusterau y gall pawb eu mwynhau.

Fe welwch wrth ddarllen yr adroddiad hwn fod amgueddfeydd yn parhau i fod wrth galon eu cymunedau, er gwaethaf yr heriau cynyddol sy'n eu hwynebu. Maen nhw'n cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd ac yn cynnig cyfleoedd addysgol ac allgymorth. Mae'n amlwg na fyddai llawer o'r gwaith hwnnw'n bosibl heb gefnogaeth miloedd o wirfoddolwyr a heb staff ymroddedig, a mawr yw fy niolch personol iddyn nhw i gyd.

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010 -15', sef y strategaeth genedlaethol gyntaf o'i bath yn y DU ar gyfer amgueddfeydd. Roedd yr amcanion a'r camau gweithredu yn y strategaeth honno'n seiliedig ar waith ymgynghori ac ar yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r Arolwg Sbotolau cyntaf yn 2006.

Yr arolwg Sbotolau hwn yw'r trydydd, ac mae'n rhoi golwg gynhwysfawr inni ar y newidiadau a welwyd yn y sector amgueddfeydd ers 2006. Bydd y materion allweddol a'r heriau a ddaw i'r amlwg yn sgil Sbotolau 2015 yn llywio'r gwaith o baratoi'r strategaeth amgueddfeydd ar gyfer 2016-2021.


Yn yr Adolygiad Arbenigol o Amgueddfeydd, a gyhoeddwyd yn 2015, gwnaed cyfres o argymhellion ar sut i greu sector amgueddfeydd cadarn yng Nghymru.  Mae dod o hyd i ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau amgueddfeydd yn hanfodol i barhad y sector, ac er mwyn llwyddo yn hynny o beth, mae angen inni gasglu tystiolaeth am y sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd. Mae Sbotolau'n rhoi'r ffeithiau hynny inni – faint o staff cymwysedig sydd mewn amgueddfeydd, o le mae cyllid yn dod, faint sy'n ymweld ag amgueddfeydd, a pha wasanaethau maen nhw'n eu darparu i'w cymunedau.

Does dim dwywaith ei bod yn newid byd ar amgueddfeydd yng Nghymru. Mae rhai awdurdodau lleol wedi mynd ati'n barod i drosglwyddo'u hamgueddfeydd i ymddiriedolaethau, ac mae eraill yn edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau gyda llai o gyllid. Mae'r arolygon Sbotolau yn dangos ym mha gyd-destun y mae'r newidiadau hynny'n digwydd

Dw i'n ddiolchgar iawn i staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr amgueddfeydd am roi o'u hamser i gwblhau'r arolwg. Hoffwn ofyn iddyn nhw barhau i'w gefnogi, ac i annog eraill i'w gwblhau hefyd.

**Ken Skates AC**
Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth





# 1. Crynodeb

Cynhaliwyd y pedwerydd arolwg yng Nghymru eleni, gydag arolygon blaenorol wedi'u cynnal yn 2011, 2006 a 2002. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg 2015 ac yn archwilio data tueddiadau ers 2002.

Mae Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (CyMAL gynt) yn amcangyfrif bod oddeutu 160 o sefydliadau yng Nghymru y gellid eu galw'n 'amgueddfa'. Ymatebodd 80 o amgueddfeydd i'r arolwg, sef cyfradd ymateb o 50%, sy'n sylweddol is na'r 66% a ymatebodd yn 2011. Cafwyd cyfradd ymateb o 72% ar gyfer y cynllun Achredu, gyda 77 o amgueddfeydd yn ymateb. Mae'r tueddiadau wedi'u seilio ar ymatebion gan grŵp craidd o 54 o amgueddfeydd a ymatebodd i'r tri arolwg blaenorol.

O blith yr ymatebwyr, roedd 40% (32) yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, roedd 34% (27) yn elusennau annibynnol, roedd 13% (10) yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda'r gweddill yn perthyn i Amgueddfa Cymru (7) neu'n amgueddfeydd prifysgol (2) neu filwrol (2).

## Safonau arfer

Er mwyn mesur safonau arfer, dewisodd yr amgueddfeydd nifer o 'Ddatganiadau Cwmpas' ansoddol a oedd yn cyfateb orau i'w sefyllfa.

- Mae safonau'n codi ar gyfartaledd ac mae'r rhan fwyaf o amgueddfeydd yn rhagori ar y safonau sy'n ofynnol gan y Cynllun Achredu ar gyfer amgueddfeydd yn y DU.
- Safonau datblygu staff a gwirfoddolwyr a mynediad (ailarddangos, dehongli a darpariaeth ddwyieithog ac ati) sydd wedi gwella fwyaf ers 2011.
- Gostyngodd cyfraddau dysgu ffurfiol ac adeiladau addas (cynnal a chadw a rheoli) yn ystod yr un cyfnod tra bod cyfraddau dysgu anffurfiol wedi aros yr un peth â 2011 fwy neu lai.
- Ers i Sbotolau ddechrau yn 2002, meysydd polisi a chynllunio a datblygu cynulleidfaoedd a marchnata sydd wedi gwella fwyaf. Darparu dysgu ffurfiol yw'r unig faes sydd wedi gweld gostyngiad yn gyffredinol.

## Amgueddfeydd i Bawb

- Roedd 3.8 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2014. Yn seiliedig ar ymatebion yr amgueddfeydd a ddarparodd ddata ar ymweliadau ar gyfer 2011 i 2014, lleihaodd nifer yr ymweliadau 3.3%.
- Cynyddodd nifer yr ymweliadau ag amgueddfeydd lleol (nad ydynt yn perthyn i Amgueddfa Cymru na'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) 1.3% yn ystod yr un cyfnod.
- Mae plant (o dan 16 oed) yn cyfrif am 21% o'r ymweliadau ag amgueddfeydd.
- Darparodd amgueddfeydd 9,178 o sesiynau dysgu a gweithgareddau ar y safle a wnaeth ymgysylltu â 500,586 o gyfranogwyr yn 2013/14.
- Cynhaliodd 60 o amgueddfeydd (75% o'r ymatebwyr) arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau ar gyfer meysydd cydraddoldeb gwahanol gan gynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, iaith, cred ac anabledd.
- Cynhaliodd amgueddfeydd 2,419 o sesiynau a gweithgareddau allgymorth dysgu a wnaeth ymgysylltu â 124,992 o gyfranogwyr y tu allan i'r amgueddfa.
- Roedd effaith economaidd ymweliadau ag amgueddfeydd yng Nghymru yn 2014 yn cyfateb i £82,780,467. Mae hyn yn seiliedig ar gyfrifiadau yn defnyddio'r Pecyn Cymorth Effaith Economaidd a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol.

## Casgliad i'r Genedl

- Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn gofalu am oddeutu 5.5 miliwn o eitemau (yn seiliedig ar ganlyniadau 2011).
- Mae 49% o storfeydd amgueddfeydd eisoes yn llawn a bydd 21% arall yn llawn erbyn 2020.

- Safonau gofalu am gasgliadau a'u rheoli oedd â'r lefelau uchaf o ymarfer, sef 4.3 ar gyfartaledd ar gyfer y datganiadau cwmpas cysylltiedig.
- Caffaelwyd 12,984 o eitemau gan amgueddfeydd, naill ai drwy eu prynu neu drwy eu cael yn rhodd yn 2013 a 2014.

## Gweithio'n Effeithiol

- Mae 3,496 o bobl yn gweithio mewn amgueddfeydd yng Nghymru.
- Mae gwirfoddolwyr yn cyfrif am 66% o'r gweithlu, i fyny o 62% yn Sbotolau 2011.
- Cyfrannodd gwirfoddolwyr 177,815 o oriau yn 2013/14 a oedd yn werth £1.37 miliwn.
- Roedd 1,196 o staff â thâl mewn amgueddfeydd, gyda 902 Cyfwerth ag Amser Llawn.
- Roedd 10 o amgueddfeydd Achrededig yn cael eu rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr, heb unrhyw staff â thâl. Roedd y rhain i gyd yn amgueddfeydd annibynnol.
- Mae bron hanner yr amgueddfeydd yng Nghymru yn darparu mynediad am ddim.
- Mae cyllidebau'n crebachu. Ar gyfartaledd, cwympodd cyllidebau amgueddfeydd lleol 1% rhwng 2011/12 a 2013/14.
- Mae lefelau'r cymhorthdal cyhoeddus a gaiff amgueddfeydd yn amrywio'n fawr. Ar gyfer amgueddfeydd annibynnol, roedd y cymhorthdal cyhoeddus yn cyfrif am tua 20% o'u hincwm, tra ar gyfer amgueddfeydd awdurdod lleol oedd yn cyfrif am 76%.
- O'r 53 o amgueddfeydd a nododd eu bod yn cael cymorth gan eu hawdurdod lleol (boed hynny'n ariannol neu mewn da), nododd pedair eu bod wedi cael mwy o gymorth rhwng 2013 a 2015, nododd 22 ei fod wedi aros yr un peth a nododd 27 eu bod yn cael llai o gymorth bellach.

## Amgueddfeydd Lleol ac Amgueddfa Cymru

Yn ogystal â themâu strategol allweddol yr arolwg, ceisiodd Amgueddfa Cymru wybodaeth am y graddau yr oedd amgueddfeydd lleol yn defnyddio ei gwasanaethau.

- Dywedodd 60% o'r amgueddfeydd lleol a ymatebodd i'r arolwg (44) eu bod yn defnyddio un o wasanaethau Amgueddfa Cymru.
- Y mathau mwyaf cyffredin o gymorth a gafwyd gan amgueddfeydd lleol oedd cyngor ar gasgliadau, cyngor ar gadwraeth a benthyciadau gwrthrychau.
- Amgueddfeydd annibynnol neu awdurdod lleol bach oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau a ddarparwyd gan Amgueddfa Cymru.

## Casgliad

- Rhydd Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015 gipolwg ar y sector yn 2014 ac mae'n pennu meincnodau ariannol sylfaenol o flwyddyn ariannol 2013/14 y gall amgueddfeydd eu defnyddio wrth symud ymlaen. Dengys yr adroddiad, er bod nifer yr ymweliadau wedi lleihau'n ddiweddar, eu bod wedi parhau i gynyddu dros y degawd diwethaf. Cyfeiria at sector sydd, er gwaethaf heriau ariannol blynyddoedd diweddar, wedi ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac wedi cynnig cyfleoedd helaeth ym meysydd dysgu ac ymgysylltu â'r gymuned, yn ogystal â meithrin ei gronfa o wirfoddolwyr. Mae safonau'r sector yn parhau i godi, yn enwedig ym meysydd datblygu staff a gwirfoddolwyr a pholisi a chynllunio, sy'n ddau faes hynod gysylltiedig. Mae mynediad i'r anabl yn amlwg yn faes i'w ddatblygu o hyd tra bydd storio yn fater mwyfwy heriol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

# 2. Trosolwg

Mae Sbotolau ar Amgueddfeydd 2011 wedi'i strwythuro ar sail materion ac yn ymwneud â materion a nodwyd o dan y tair egwyddor allweddol yn 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-15'[1]

- Amgueddfeydd i Bawb.
- Casgliad i'r Genedl.
- Gweithio'n Effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ffeithiau, ffigurau a dadansoddiadau y gall amgueddfeydd a gwasanaethau amgueddfeydd eu defnyddio er mwyn dangos eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd i'w cymunedau a meincnodi yn erbyn cyfoedion er mwyn nodi cyfleoedd i wella perfformiad.

Yn dilyn Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015, bydd yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn ystyried dichonoldeb arolwg blynyddol cyffyrddiad ysgafn o ddata craidd er mwyn annog amgueddfeydd i gasglu'r data hyn yn rheolaidd ac yn barhaus. Disgwylir i hyn helpu amgueddfeydd i ddangos eu heffaith yn fwy effeithiol.

Roedd y cwestiynau yn Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015 yn gofyn yn fwriadol i amgueddfeydd ystyried materion a nodwyd yn fersiwn ddiwygiedig y Cynllun Achredu ar gyfer amgueddfeydd yn y DU[2] a lansiwyd yn 2011. Mae'r Cynllun Achredu yn pennu safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer amgueddfeydd yn nhri maes allweddol iechyd sefydliadol, rheoli casgliadau a defnyddwyr a'u profiadau. Mae'r cynllun yn helpu amgueddfeydd i ganolbwyntio ar safonau, nodi meysydd i'w gwella a dod yn fwy gwydn drwy flaengynllunio.

Mae'r Safon Achredu yn fodd i wahaniaethu rhwng sefydliadau sy'n casglu ac yn arddangos arteffactau, ac amgueddfeydd go iawn sydd wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llawn â diffiniad y DU o amgueddfa, sy'n nodi fel a ganlyn:

**'Mae amgueddfeydd yn fodd i bobl archwilio casgliadau er mwyn cael ysbrydoliaeth, dysg a mwynhad. Maent yn sefydliadau sy'n casglu, diogelu a rhoi ar gael arteffactau a sbesimenau, y maent yn dal dan ymddiried ar ran cymdeithas.'**[3]

## 2.1 Proses

Mae Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015 yn adeiladu ar ddata a gasglwyd yn 2011 a 2006, ac ar ddata a gasglwyd gan Gyngor Amgueddfeydd Cymru ar gyfer arolwg ac adroddiad 'Mapio Amgueddfeydd 2002'. Mae arolwg 2015 yn manteisio ar brofiad yr arolwg rhanbarthol o amgueddfeydd a gynhaliwyd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, sef 'Fast Forward'[4]. Am y tro cyntaf cafodd nifer o'r cwestiynau eu cysoni ag arolygon rhanbarthol a gynhaliwyd gan ddarparwyr Datblygu Amgueddfeydd yn Lloegr fel bod modd cymharu'r ddwy wlad.[5]

Cafodd y cwestiynau a ofynnwyd yn Sbotolau 2011 eu hadolygu er mwyn lleihau nifer y cwestiynau a ofynnwyd i amgueddfeydd. Mae llawer o'r manylion a gasglwyd yn arolwg Sbotolau 2011 mewn perthynas â chasgliadau bellach yn rhan o'r data Achredu ac felly nis cynhwyswyd er mwyn lleihau dyblygu wrth gasglu data gan amgueddfeydd.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein rhwng canol mis Mawrth 2015 a diwedd mis Hydref 2015 er mwyn rhoi cymaint o gyfle â phosibl i amgueddfeydd ymateb. Cafodd amgueddfeydd wybod am yr arolwg drwy neges e-bost uniongyrchol a gwasanaeth gwybodaeth presennol yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd[6]. Anfonwyd negeseuon atgoffa misol i amgueddfeydd, ac roedd cyngor a chymorth ar gwblhau'r arolwg ar gael drwy e-bost.

---

1 Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010 www.gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/museums/strategy/?lang=cy

2 Caiff y Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd yn y DU ei weithredu gan Gyngor Celfyddydau Lloegr a'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae'r Safon Achredu yn safon wirfoddol ar gyfer amgueddfeydd, a dderbynnir yn eang. I gael manylion llawn am y Cynllun Achredu, ewch i wefan Cyngor Celfyddydau Lloegr. www.artscouncil.org.uk/what-we-do/supporting-museums/

3 Cymdeithas yr Amgueddfeydd 1998: www.museumsassociation.org/ethics/code-of-ethics

4 Fast Forward 2010. The Survey of Museums and Galleries in the West Midlands', Fast Forward 2010 Bwrdd Golygyddol 2011 www.collectionstrust.org.uk/events/item/1144-fast-forward-2010

5 www.southwestmuseums.org.uk/publications-resources/research-and-data/

6 Gwasanaeth Gwybodaeth i Amgueddfeydd www.gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/museums/current-awareness/?lang=cy

Darperir data Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015 mewn tair ffordd:

- Adroddiad argraffedig – ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.
- Ar-lein – drwy wefan yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd .
- Taenlen Excel – ar gael ar gais gan yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

## 2.2 Deall y data

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan amgueddfeydd yn seiliedig ar bedwar math gwahanol o gwestiwn:

- Cwestiynau a oedd yn gofyn am ateb byr cadarnhaol neu negyddol, e.e. a oes gennych wefan?
- Cwestiynau a oedd yn gofyn am dystiolaeth rifol, e.e. ffigurau ynghylch cyllidebau ac ymweliadau ar gyfer amgueddfeydd.
- Cwestiynau a oedd yn gofyn am ateb ar ffurf testun rhydd er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol. Defnyddiwyd atebion i esbonio'r adroddiad.
- Cwestiynau hunanasesu (Datganiadau Cwmpas) er mwyn mesur lefelau arfer ar gyfer nifer o weithgareddau amgueddfeydd.

### 2.2.1 Maint y sampl

Gwahoddwyd pob sefydliad sy'n ystyried ei hun yn amgueddfa i gymryd rhan. Mae'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yn amcangyfrif bod oddeutu 160 o amgueddfeydd yng Nghymru. Ymatebodd 80 o amgueddfeydd i'r arolwg, sef cyfradd ymateb o 50%, sy'n sylweddol is na'r 66% a ymatebodd yn 2011. Cafwyd cyfradd ymateb uwch ymhlith amgueddfeydd yn y cynllun Achredu, gyda 77 o amgueddfeydd yn ymateb, sy'n gyfradd ymateb o 72%.

Wrth ystyried yr ymatebion, dylid cadw'r pwyntiau canlynol mewn cof:

- Nid oedd pob amgueddfa wedi ateb pob cwestiwn.
- Mae'r canrannau yn yr adroddiad wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.
- Mae 'pob' amgueddfa neu'r 'holl' amgueddfeydd yn golygu pob un o'r amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg yn 2015.
- Mae'r 'grŵp craidd' o amgueddfeydd yn cyfeirio at yr amgueddfeydd sydd wedi ymateb i bob un o'r pedwar arolwg Sbotolau.
- Os yw'r gwahaniaethau'n fach a'r lefelau ymateb yn isel, rhaid cymryd gofal wrth ddehongli'r data.
- Rhaid i ddata sy'n berthnasol i gyllidebau gael eu hystyried yn ddata bras neu ddangosol, oherwydd caiff gwahanol fethodolegau cyfrifyddu eu defnyddio mewn gwahanol amgueddfeydd ac mae nifer o amgueddfeydd yn gweithredu blwyddyn ariannol wahanol i fis Ebrill i fis Mawrth.
- Ar gyfer sefydliadau â sawl safle lle mae gwasanaeth amgueddfeydd yn darparu cymorth canolog i nifer o amgueddfeydd cysylltiedig y gall, neu na all, fod yn eu rhedeg yn uniongyrchol, mae eu hymatebion, lle bo'n berthnasol, wedi'u crynhoi o dan un 'rhiant' amgueddfa. Mae'r adnoddau (staff, deunyddiau a chyllidebau) y maent yn eu gweinyddu wedi'u gwasgaru ar draws sawl amgueddfa ond, at ddibenion yr adroddiad hwn, fe'u dangosir yn erbyn y 'rhiant' amgueddfa'n unig, e.e. Amgueddfa Cymru Caerdydd. Mae angen darllen eu data manwl yn ofalus, oherwydd gall eu hadnoddau ymddangos yn anghymesur o'u cymharu â'r hyn y maent yn ei ddarparu'n uniongyrchol fel amgueddfa, pan, mewn gwirionedd, y caiff eu hadnoddau eu rhannu rhwng sawl amgueddfa.

### 2.2.2 Y categorïau o amgueddfeydd a ddefnyddir at ddibenion dadansoddi

Defnyddir tri phrif gategori o amgueddfeydd at ddibenion dadansoddi yn yr adroddiad:

- Y **math** o amgueddfa, a bennir gan y ffynhonnell ariannu a'r model llywodraethu.
- **Maint** yr amgueddfa, a bennir gan y ffigurau blynyddol ar gyfer ymweliadau.
- **Grŵp craidd** – yr amgueddfeydd a ymatebodd i'r arolwg yn 2002, 2006 a 2011. Ceir rhestr o'r amgueddfeydd sy'n rhan o'r grŵp craidd yn Atodiad C. Mae'r grŵp hwn wedi lleihau mewn nifer o 73 i 54 ers 2006 ac erbyn hyn mae ond yn cynnwys amgueddfeydd Achrededig.


## 2.3 Math o amgueddfa

O'r 160 o sefydliadau a geir yng Nghymru, mae'r rhai a ymatebodd wedi eu rhannu'n  bedwar categori o amgueddfeydd, yn dibynnu ar eu trefniadau ariannu a llywodraethu.


- saith amgueddfa genedlaethol, Amgueddfa Cymru (a gaiff eu hariannu gan Lywodraeth Cymru).

- 32 o amgueddfeydd awdurdodau lleol (a gaiff eu hariannu a'u rhedeg yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol).
- 31 o amgueddfeydd annibynnol (a gaiff eu hariannu a'u rhedeg yn annibynnol ar lywodraeth leol neu genedlaethol) – mae'r categori hwn yn cynnwys amgueddfeydd prifysgol; amgueddfeydd a gaiff eu rhedeg ar gyfer catrodau'r fyddin ac elusennau. Gall y rhain gael rhyw fath o arian cyhoeddus drwy gymorth gan lywodraeth neu awdurdod lleol, e.e. drwy grantiau neu gyngor proffesiynol.
- Deg eiddo yn perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

### Ffigur 2.3.1: Ymatebion yn ôl y math o amgueddfa




### Ffigur 2.3.2: Amgueddfeydd grŵp craidd yn ôl eu math




## 2.4 Maint yr amgueddfa

Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn amrywio o amgueddfeydd cenedlaethol mawr (Amgueddfa Cymru) i sefydliadau cymunedol bach. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae maint amgueddfeydd wedi cael ei bennu gan y nifer gyfartalog o ymweliadau bob blwyddyn rhwng 2010 a 2014. Os na wnaeth amgueddfa nodi nifer yr ymweliadau ar gyfer un o'r blynyddoedd, am ba reswm bynnag, yna defnyddiwyd cyfartaledd y blynyddoedd a ddarparwyd ganddi. Ceir rhestr o amgueddfeydd yn ôl categori maint yn Atodiad A.

### Mawr

- Mae 18 o amgueddfeydd yn cael dros 50,000 o ymweliadau'r flwyddyn ar gyfartaledd. Roedd pedair o'r chwe amgueddfa fwyaf poblogaidd rhwng 2011 a 2014 yn rhan o Amgueddfa Cymru. Mae hyn yn cynnwys Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, sydd hefyd yn un o atyniadau twristiaeth mwyaf Cymru gydag ychydig o dan 600,000 o ymweliadau'r flwyddyn ar gyfartaledd.


### Canolig

- Mae 28 o amgueddfeydd canolig eu maint yn cael rhwng 10,000 a 50,000 o ymweliadau'r flwyddyn ar gyfartaledd.


### Bach

- Mae 31 o amgueddfeydd bach yn cael llai na 10,000 o ymweliadau'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- O'r ymatebwyr sy'n weddill, roedd un ar gau yn ystod y cyfnod, nid oedd un arall wedi'i staffio ac felly ni nodwyd nifer yr ymwelwyr, ac ni wnaeth un amgueddfa roi esboniad dros beidio â nodi nifer yr ymweliadau.

### Ffigur 2.4.1: Ymatebion yn ôl maint yr amgueddfa




### Ffigur 2.4.2: Amgueddfeydd grŵp craidd yn ôl maint




## 2.5 Statws Achredu

Mae'r Cynllun Achredu yn gynllun gwirfoddol, rhad ac am ddim sy'n agored i unrhyw sefydliad cymwys sy'n cyrraedd safonau gofynnol. Mae'r Cynllun Achredu yn pennu safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer amgueddfeydd yn nhri maes allweddol iechyd sefydliadol, rheoli casgliadau a defnyddwyr a'u profiadau. Mae'r cynllun yn helpu amgueddfeydd i ganolbwyntio ar safonau, nodi meysydd i'w gwella a dod yn fwy gwydn drwy flaengynllunio. Caiff sefydliadau sydd eisoes yn casglu, yn dehongli ac yn honni eu bod yn gofalu am arteffactau neu sbesimenau er budd y cyhoedd eu hannog i ymuno â'r cynllun.

Mewn adroddiadau Sbotolau blaenorol, cymharwyd amgueddfeydd Achrededig ac amgueddfeydd nad ydynt yn Achrededig. Fodd bynnag, eleni, dim ond tri ymatebydd oedd heb eu Hachredu eisoes neu nad oeddent yn gweithio tuag at ennill statws Achrededig yn ffurfiol, felly ni fyddai modd cymharu ar sail data digonol. Rhestrir yr amgueddfeydd yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Achredu ar dudalennau gwe'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd[7].

## 2.6 Lefelau arfer mewn amgueddfeydd

Mae Sbotolau yn archwilio pa mor dda y mae amgueddfeydd yn llwyddo mewn 13 o feysydd gwaith, gan ddefnyddio Datganiadau Cwmpas a gaiff eu hunanasesu. Mae'r Datganiadau Cwmpas yn cymryd meysydd gwaith sy'n dangos sut mae amgueddfeydd yn gwasanaethu eu cymunedau, yn rheoli eu casgliadau ac yn llywodraethu eu hunain, gan eu dosbarthu'n wahanol lefelau gweithgarwch. Caiff pob datganiad ei raddio o 1 i 6, lle mae 1 yn cyfateb i fawr ddim gwaith, os o gwbl, a lle mae 6 yn cyfateb i arfer gorau. Mae Datganiadau Cwmpas yn galluogi amgueddfeydd i nodi'r meysydd y maent yn perfformio'n dda ynddynt a'r meysydd lle mae angen iddynt ddatblygu ymhellach. Arwydd o lefel gweithgarwch ydynt yn hytrach na sgoriau ac ni ddisgwylir i bob amgueddfa gyrraedd lefel chwech ym mhob maes. Dylai Amgueddfeydd ymdrechu i gyrraedd y lefel uchaf posib sydd fwyaf addas ar gyfer maint a graddfa eu sefydliad.

Cafodd Datganiadau Cwmpas eu defnyddio yn arolwg 'Mapio Amgueddfeydd 2002' Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Amgueddfeydd Cymru. Cafodd y datganiadau eu diweddaru ar gyfer arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2006 a chyflwynwyd cwmpasau newydd. Gwnaed rhywfaint o waith diweddaru yn 2015 hefyd. Mae'r Datganiadau Cwmpas a ddefnyddiwyd i fesur lefelau gwasanaeth yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y Safon Achredu. Mae lefel tri yn cyfateb i ofynion y Safon Achredu.

Cyhoeddir Datganiadau Cwmpas 2015 yn Atodiad B ar ddiwedd yr adroddiad hwn.


### 2.6.1 Achredu a Datganiadau Cwmpas

Mae 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru' yn defnyddio nifer yr amgueddfeydd sy'n cyrraedd lefel tri yn yr holl Ddatganiadau Cwmpas fel arwydd bod amgueddfeydd yn parhau i weithio


[7] http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/museums/accreditation/?lang=cy

tuag at y Safon Achredu. Ar gyfartaledd, mae amgueddfeydd Achrededig yn rhagori ar y gofynion sylfaenol ac maent yn llwyddo i gyrraedd safonau uwch yn gyson. Roedd 41 o amgueddfeydd yn y Cynllun Achredu a nododd eu bod yn cyflawni islaw lefel tri mewn un maes o leiaf. Nodir y rhain fel meysydd i'w gwella mewn adroddiadau Achredu yn y dyfodol.

### Ffigur 2.6.1-1: Lefelau arfer cyfartalog ers 2002 ar gyfer yr holl amgueddfeydd




### Ffigur 2.6.1-2: Lefelau arfer cyfartalog ers 2002 ar gyfer y grŵp craidd




### Ffigur 2.6.1-3: Newidiadau i lefelau gwasanaeth rhwng 2002 a 2015

| Datganiad Cwmpas | % gwahaniaeth pob amgueddfa 2015-2011 | % gwahaniaeth pob amgueddfa 2015-2002 | % gwahaniaeth grŵp craidd 2015-2011 | % gwahaniaeth grŵp craidd 2015-2002 |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Cynulleidfaoedd a Marchnata | 0.05 | 0.41 | 0.01 | 0.34 |
| Dysgu Ffurfiol | -0.05 | -0.05 | -0.07 | -0.09 |
| Dysgu Anffurfiol | 0.02 | 0.01 | 0.00 | -0.06 |
| Mynediad – Arddangosfeydd | 0.13 | 0.13 | -0.07 | 0.05 |
| Mynediad – Pobl Anabl | 0.06 | 0.10 | 0.00 | 0.03 |
| Datblygu Staff a Gwirfoddolwyr | 0.21 | DD/G | 0.14 | DD/G |
| Darparu Adeiladau Addas | -0.01 | DD/G | -0.06 | DD/G |
| Monitro Amgylcheddol | 0.09 | 0.18 | 0.04 | 0.10 |
| Rheolaeth Amgylcheddol | 0.09 | 0.10 | 0.02 | 0.02 |
| Storio a Glanhau | 0.06 | 0.07 | -0.02 | 0.02 |
| Arddangos a Glanhau | 0.06 | DD/G | -0.03 | DD/G |
| Dogfennaeth | 0.08 | 0.03 | 0.01 | 0.04 |
| Polisi a Chynllunio | 0.12 | 0.76 | 0.03 | 0.52 |
| Cyfartaledd cyffredinol | 0.07 | 0.15 | 0.00 | 0.08 |


### Ffigur 2.6.1-4: Nifer yr amgueddfeydd sy'n cyrraedd lefelau gwasanaeth cyfartalog neu'n rhagori arnynt

| Pob amgueddfa 2015 | Datblygu Cynulleidfaoedd/ Marchnata | Dysgu Ffurfiol | Dysgu Anffurfiol | Mynediad – Arddangosfeydd | Mynediad – Pobl Anabl | Datblygu Staff a Gwirfoddolwyr | Darparu Adeiladau Addas | Monitro Amgylcheddol | Rheolaeth Amgylcheddol | Storio a Glanhau | Arddangos a Glanhau | Dogfennaeth | Polisi a Chynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd Cymru 2015 | 3.78 | 3.83 | 3.94 | 4.11 | 3.28 | 4.03 | 3.97 | 4.64 | 4.30 | 3.75 | 4.45 | 4.38 | 3.97 |
| Nifer yr ymatebion | 78 | 78 | 77 | 75 | 76 | 73 | 73 | 74 | 74 | 72 | 73 | 74 | 72 |
| Nifer yr amgueddfeydd ar lefel 3 neu uwch | 70 | 62 | 68 | 63 | 47 | 60 | 70 | 71 | 71 | 60 | 66 | 73 | 66 |
| Nifer yr amgueddfeydd ar lefel 4 neu uwch | 40 | 39 | 50 | 51 | 32 | 52 | 45 | 62 | 57 | 37 | 57 | 59 | 45 |

Ffigur 2.6.1-5: Lefelau gwasanaeth cyfartalog yn ôl maint yr amgueddfa




Ffigur 2.6.1-6: Lefelau gwasanaeth cyfartalog yn ôl y math o amgueddfa



## 2.7 Heriau a llwyddiannau ers 2011

Gwahoddwyd amgueddfeydd i nodi eu prif gyflawniadau ers 2011, yn eu barn hwy, a nodi pa heriau a allai fod yn eu hwynebu yn y dyfodol. Mae'r astudiaethau 'O dan y Sbotolau' a welir drwy'r adroddiad hwn yn seiliedig ar eu hymatebion.

### Heriau

Ariannu, cyllidebau a thoriadau posibl yw'r prif feysydd sy'n peri pryder i bob amgueddfa o hyd, ac yn ail agos i hynny y mae cynnal gwasanaethau â llai o staff. Cafodd recriwtio a chadw gwirfoddolwyr ei nodi'n her allweddol o ran sicrhau cynaliadwyedd gan nifer o amgueddfeydd annibynnol yn bennaf. Tynnodd nifer o amgueddfeydd sylw at yr her o newid o fod yn amgueddfa wedi'i rhedeg gan awdurdod lleol i fod yn ymddiriedolaeth elusennol, yn enwedig pan fo mwy o doriadau yng nghyllid awdurdodau lleol ar y gorwel. Hefyd, nodwyd bod cynnal a chynyddu niferoedd ymwelwyr yn her allweddol.

### Llwyddiannau

Nododd pob math o amgueddfa fod arddangosfeydd, yn fwy na'r un gweithgarwch arall, ymysg eu llwyddiannau, a chyfeiriodd sawl amgueddfa at gynllun partneriaeth Llywodraeth Cymru, sef Cyfoeth Cymru Gyfan[8]. Yn aml, bydd arddangosfeydd yn esgor ar gyfleoedd i gael cyllid a sefydlu partneriaethau â chymunedau a sefydliadau eraill a thynnodd amgueddfeydd sylw at y rhain fel rhai o brif ganlyniadau eu rhaglenni arddangos.

Roedd ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chymunedau yn thema bwysig i bron pob amgueddfa. Amrywiai hyn o gynyddu nifer yr ymweliadau a chynnal digwyddiadau cyhoeddus i ddatblygu rhaglenni dysgu cymunedol newydd ac arddangosfeydd wedi'u cydguradu â phobl ifanc ddi-waith.

Tynnodd amgueddfeydd sylw at y ffaith bod ennill statws Achredu llawn yn llwyddiant allweddol. Mae achrediad yn fodd i gydnabod amgueddfeydd sy'n ymrwymedig i ofalu am gasgliadau a'u rheoli, sicrhau cadernid sefydliadol drwy flaengynllunio, ymateb i anghenion defnyddwyr a gweithio i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Roedd cyflwyno, datblygu, neu gynnal yn syml sylfaen wirfoddoli gref yn nodwedd gyffredin. Enillodd Canolfan yr Aifft ac Amgueddfeydd Abertawe a Phont-y-pŵl wobrau cenedlaethol am eu rhaglenni gwirfoddoli.

Cyrhaeddodd Amgueddfa Arberth y rownd derfynol yng Ngwobr Amgueddfa'r Flwyddyn 2013 Cronfa'r Celfyddydau a chafodd Amgueddfa ac Oriel Dinbych-y-pysgod ei chynnwys ar y rhestr hir yng Ngwobr Amgueddfa i'r Teulu y Flwyddyn gan y Telegraph yn 2014. Yn 2015, cafodd y Tŷ Weindio, Tredegar Newydd, Ganmoliaeth Arbennig Amgueddfeydd i'r Teulu am ei Chyfraniad Arbennig at y Gymuned Leol – y tro cyntaf i unrhyw amgueddfa gael y fath glod. Cydnabyddiaeth oedd hyn am yr hyn a ddywedodd teuluoedd lleol am eu hamgueddfa a pha mor bwysig ydoedd iddynt.

Nodir llwyddiannau eraill yn yr adrannau 'O dan y Sbotolau' drwy'r adroddiad'.

[8] Am ragor o wybodaeth am gynllun Cyfoeth Cymru Gyfan gweler: www.gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/funding/sharing-treasures-review/?lang=cy


# 3. Amgueddfeydd i Bawb

Mae angen i amgueddfeydd fod yn sefydliadau hygyrch a chroesawgar sy'n deall eu defnyddwyr ac sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion gwahanol ddefnyddwyr. Mae lleihau rhwystrau i fynediad, gweithio gyda chymunedau, darparu ar gyfer twristiaid, creu cyfleoedd i ddysgu a gwirfoddoli, a bod yn rhan weithgar o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig o safbwynt diwylliannol i gyd yn agweddau allweddol ar sicrhau bod ein hamgueddfeydd yn berthnasol ac yn ddiddorol i bawb.

Ystyriodd Sbotolau'r materion canlynol a godwyd yn 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru':

- Y defnydd o'r fframwaith 'Annog Addysg'[9].
- Bodolaeth archwiliadau mynediad.
- Lefelau gwirfoddoli.
- Lefelau cynnwys cymunedau.
- Lefelau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc.

**Ffigur 3: Lefelau gwasanaeth cyffredinol cyfartalog ar gyfer defnyddwyr amgueddfeydd: Datblygu Cynulleidfaoedd a Marchnata; Mynediad – Arddangosfeydd; Dysgu Ffurfiol; Dysgu Anffurfiol; Mynediad – Pobl Anabl**




## 3.1 Ymweliadau ag amgueddfeydd

Mae nifer y bobl sy'n ymweld ag amgueddfeydd yn bersonol yn un o'r prif ffactorau sy'n dangos eu poblogrwydd, ac, mewn sawl ffordd, sy'n dangos eu llwyddiant hefyd. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd ymweliadau ag amgueddfeydd yn berthynol i faint a chwmpas amgueddfa.

Mae amgueddfeydd yn rhan bwysig o'r arlwy twristiaeth yng Nghymru. Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Strategic Marketing ar ran Llywodraeth Cymru yn 2013, roedd amgueddfeydd ymhlith y 10 prif reswm dros ymweld â Chymru a nodwyd gan ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU a dyma oedd y trydydd rheswm mwyaf cyffredin i ymwelwyr dydd yn y DU ac ymwelwyr tramor[10].

- Mae'r dadansoddiad o niferoedd ymweliadau yn defnyddio dwy set o ffigurau. Mae'r ffigurau cyfartalog yn seiliedig ar yr holl ymatebion a ddaeth i law, ond mae'r cyfansymiau ond yn seiliedig ar yr amgueddfeydd hynny a gyflwynodd ffigurau ar ymweliadau ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014.
- Lleihaodd cyfanswm nifer yr ymweliadau ag amgueddfeydd a ddarparodd niferoedd ar gyfer y cyfnod hwn 3.3%, i 3.75 miliwn yn 2014. Lleihaodd nifer yr ymweliadau â'r grŵp craidd o ymatebwyr Sbotolau 3.9% rhwng 2011 a 2014.
- Ni wnaeth nifer fach o amgueddfeydd ddarparu data ar gyfer y blynyddoedd hyn. Gan gynnwys eu data ar gyfer 2014, roedd 3.8 miliwn o ymweliadau ag amgueddfeydd yng Nghymru.
- Mae'r canlyniad cyffredinol hwn yn celu rhai amrywiadau mawr rhwng gwahanol fathau o amgueddfeydd.
- Cynyddodd nifer yr ymweliadau ag amgueddfeydd lleol (nad ydynt yn perthyn i Amgueddfa Cymru na'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) 1.3% mewn gwirionedd i 1.53 miliwn. Lleihaodd nifer yr ymweliadau ag Amgueddfa Cymru 3.4% i 1.67 miliwn tra lleihaodd nifer yr ymweliadau ag eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol 13.3% rhwng 2011 a 2014.
- Dengys y ffigurau hyn ddarlun cymhleth, sy'n tanlinellu'n arbennig nad yw niferoedd ymweliadau bob amser yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn a bod amrywiadau yn normal. Er

[9] Inspiring Learning, An improvement framework for museums, libraries and archives www.inspiringlearning.com/index.html
[10] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2013: www.gov.wales/statistics-and-research/wales-visitor-survey/?tab=previous&lang=cy

bod niferoedd ymweliadau wedi lleihau rhwng 2011 a 2014, yn seiliedig ar amgueddfeydd a ddarparodd gyfanswm nifer yr ymweliadau ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2006 a 2014, cynyddodd cyfanswm nifer yr ymweliadau yn ystod y cyfnod naw mlynedd 3.1% mewn gwirionedd, gan danlinellu pwysigrwydd edrych ar dueddiadau ffigurau ymweliadau yn yr hirdymor.

- Roedd yr amgueddfeydd hynny â nifer uwch o ymweliadau yn dueddol o ddarparu lefelau uwch o wasanaeth. Roedd y patrwm hwn yn gyson ar gyfer yr holl ddatganiadau cwmpas. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried bod amgueddfeydd â mwy o ymwelwyr yn debygol o fod â mwy o staff ac adnoddau hefyd.

Am y tro cyntaf mewn arolwg Sbotolau, gofynnwyd i amgueddfeydd ddadansoddi nifer yr ymweliadau gan blant (dan 16 oed) ac oedolion.

- Er mai dim ond 30 o amgueddfeydd a ddadansoddodd nifer yr ymweliadau gan blant ac oedolion ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014 gall y data gynnig cipolwg defnyddiol o hyd. Er enghraifft, ar gyfartaledd, roedd plant yn cyfrif am 21% o'r holl ymweliadau ag amgueddfeydd yn ystod y cyfnod hwn.

Hefyd, gofynnwyd i amgueddfeydd nodi p'un a oedd y ffigurau a ddarparwyd ganddynt ar gyfer ymweliadau yn rhai gwirioneddol neu amcangyfrifedig.

- Darparodd 52 o amgueddfeydd ffigurau gwirioneddol ar gyfer yr holl ymweliadau rhwng 2011 a 2014 a dim ond 10 amgueddfa a ddarparodd amcangyfrifon yn unig. Lle na nododd amgueddfeydd hyn, tybiwyd mai amcangyfrifon oeddent.
- I'r gwrthwyneb, dim ond 18 o amgueddfeydd a oedd yn gallu darparu dadansoddiad gwirioneddol rhwng ymweliadau gan blant (o dan 16 oed) ac oedolion ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014. Er y cydnabyddir y gall hyn fod yn heriol, am ei fod yn dibynnu ar ddull yr amgueddfa o gyfrif ymwelwyr, mae angen i amgueddfeydd ddeall pwy yw eu defnyddwyr.

Gofynnwyd i amgueddfeydd nodi eu horiau agor arferol.

- Roedd 63% (49) o'r ymatebwyr ar agor drwy'r flwyddyn.
- Roedd 33% (26) o'r ymatebwyr yn cau am ran o'r flwyddyn fel rhan o gyfnod cau tymhorol rheolaidd.
- Roedd dwy amgueddfa ar gau am ran o'r flwyddyn am resymau fel gwaith atgyfeirio neu ailddatblygu.
- Roedd un amgueddfa ar agor drwy apwyntiad yn unig drwy gydol y flwyddyn.

### O dan y Sbotolau


**Casgliad Llyn Cerrig Bach yn Oriel Ynys Môn**

Yn ystod haf 2012, cafodd llawer o wrthrychau o gasgliad Llyn Cerrig Bach, gan gynnwys y goreuon, eu harddangos yn Oriel Ynys Môn. Bu'n bartneriaeth foddhaol a llwyddiannus rhwng Cyngor Sir Ynys Môn ac Amgueddfa Cymru. Cyfrannodd y cydweithredu hwn at wella enw da Amgueddfa Cymru fel benthyciwr casgliadau cenedlaethol, yn ogystal â lledaenu enw da Oriel Ynys Môn ledled Cymru fel lleoliad a all fenthyca gwaith o bwys i sefydliadau eraill yn y DU.




© Casgliad Llyn Cerrig Bach yn Oriel Ynys Môn

**Ffigur 3.1.1: Cyfanswm yr ymweliadau â phob amgueddfa a ddarparodd ffigurau ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014**





Mae'r siartiau canlynol yn dangos cyfanswm yr ymweliadau ag amgueddfeydd yn ôl math a ddarparodd ffigurau ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014.


**Ffigur 3.1.2: Amgueddfa Cymru (7 amgueddfa) – Newid Cyffredinol – 2011-2014 -3.4%**




### Ffigur 3.1.3: Amgueddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (10 amgueddfa) – Newid Cyffredinol – 2011-2014 -13.3%





### Ffigur 3.1.4: Amgueddfeydd lleol (54 amgueddfa) – Newid Cyffredinol – 2011-2014 +1.3%




## Ffigur 3.1.5: Cyfanswm yr ymweliadau â phob amgueddfa a grŵp craidd a ddarparodd ffigurau ymweliadau ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014





## Ffigur 3.1.6: Cyfanswm yr ymweliadau ag amgueddfeydd ers 2006




## Ffigur 3.1.7: Ymweliadau cyfartalog yn ôl y math o amgueddfa a ddarparodd ddata ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014




## Ffigur 3.1.8: Ymweliadau cyfartalog yn ôl maint amgueddfeydd a ddarparodd ddata ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014



Ffigur 3.1.9: Lefelau gwasanaeth defnyddwyr yn ôl maint amgueddfeydd




## 3.2 Effaith economaidd ymweliadau ag amgueddfeydd

Gall amgueddfeydd wneud cyfraniadau pwysig i'r economi, gan helpu i ddenu twristiaid a llywio gwariant gan ymwelwyr. Mae'r gwariant hwn gan ymwelwyr o fudd ehangach i fusnesau eraill fel caffis, bwytai, darparwyr llety ac atyniadau ymwelwyr eraill hefyd.

- Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol wedi cyhoeddi Pecyn Cymorth Effaith Economaidd a ddatblygwyd gan yr ymgynghorwyr, DC Research, er mwyn helpu amgueddfeydd i nodi effaith gros ymweliadau â'u hamgueddfeydd yn nhermau gwerth economaidd[11]. Gall y pecyn cymorth hwn gael ei ddefnyddio gan amgueddfeydd unigol ond gall hefyd helpu i ddarparu syniad o'r gwerth economaidd hwn ar lefel gronnol.
- Mae'r cyfrifiad yn gymharol syml, gan gymryd nifer yr ymweliadau gan oedolion ag amgueddfa, pennu cyfran yr ymweliadau lleol, dydd a thros nos, a'u lluosi â thybiaethau gwariant cyfartalog ymwelwyr. Datblygwyd tybiaethau gwariant gan DC Research ar sail setiau data swm a gwerth twristiaeth ranbarthol a chenedlaethol a ddiweddarwyd yn 2014[12].
- Gan ddefnyddio'r data ar ymwelwyr a ddarparwyd gan amgueddfeydd, mae modd cyfrifo bod gwerth economaidd gros ymweliadau ag amgueddfeydd yng Nghymru yn £82,780,467 yn 2014.
- Cafodd y ffigur hwn ei gyfrifo fel a ganlyn:
  - Pennu cyfanswm yr ymweliadau gan oedolion ag amgueddfeydd yn 2014 (3,003,604 yn seiliedig ar gymhareb oedolion/plant o 79/21); defnyddio amcangyfrifon ar gyfer cyfran yr ymweliadau lleol, dydd a thros nos a ddarparwyd gan DC Research yn seiliedig ar faint amgueddfeydd; lluosi'r rhain â thybiaethau gwariant ymwelwyr ar gyfer Cymru.
  - Nid oedd cymarebau gwirioneddol ar gyfer ymweliadau lleol, dydd a thros nos ar gael gan amgueddfeydd felly defnyddiwyd y cymarebau cyfartalog a ddarparwyd gan DC Research. Nid oedd unrhyw ddata nac amcangyfrifon cyfartalog ar gyfer ymweliadau dros nos ar gael felly rhannwyd ymweliadau yn rhai lleol a dydd yn unig. Mae hyn yn golygu bod gwerth economaidd cyffredinol ymweliadau yn debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol, o ystyried y lefelau uwch o wariant gan ymwelwyr sy'n gysylltiedig ag ymweliadau dros nos.

[11] www.aim-museums.co.uk/content/research_papers/
[12] www.aim-museums.co.uk/downloads/f6e017ac-8f11-11e3-8be4-001999b209eb.pdf

Ffigur 3.2.1: Cymhareb amcangyfrifedig ymweliadau lleol i ymweliadau dydd yn ôl maint amgueddfeydd [13]

| | Ymweliadau lleol | Ymweliadau dydd |
|---|---|---|
| Amgueddfeydd bach | 47 | 53 |
| Amgueddfeydd canolig | 44 | 56 |
| Amgueddfeydd mawr | 31 | 69 |

Ffigur 3.2.2: Tybiaethau gwariant ymwelwyr rhanbarthol[14]

| Rhanbarth Cymru | Gwariant cyfartalog (ymwelydd lleol) | Gwariant cyfartalog (ymwelydd dydd) |
|---|---|---|
| De-ddwyrain | £15.30 | £30.61 |
| De-orllewin | £22.49 | £44.98 |
| Y Canolbarth | £18.96 | £37.92 |
| Y Gogledd | £14.39 | £28.78 |

Ffigur 3.2.3: Effaith economaidd ymweliadau ag amgueddfeydd yng Nghymru yn 2014[15]

| Rhanbarth Cymru | Ymweliadau gan oedolion ag amgueddfeydd bach | Gwerth ymweliadau | Ymweliadau gan oedolion ag amgueddfeydd canolig | Gwerth ymweliadau | Ymweliadau gan oedolion ag amgueddfeydd mawr | Gwerth ymweliadau | Cyfanswm gwerth ymweliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| De-ddwyrain | 6,739 | £157,789 | 137,876 | £3,291,596 | 1,387,901 | £35,896,533 | £39,345,918 |
| De-orllewin | 32,497 | £1,118,212 | 198,448 | £6,962,429 | 328,333 | £12,479,314 | £20,559,955 |
| Y Canolbarth | 15,505 | £449,781 | 42,411 | £1,254,416 | 98,958 | £3,170,852 | £4,875,049 |
| Y Gogledd | 30,197 | £664,838 | 155,153 | £3,482,937 | 569,584 | £13,851,770 | £17,999,545 |
| **Cyfanswm** | | **£2,390,620** | | **£14,991,378** | | **£65,398,469** | **£82,780,467** |

## 3.3 Ymgysylltu ar-lein


Mae'r datblygiadau cyflym ym maes technoleg ddigidol dros y blynyddoedd diwethaf yn rhoi cryn gyfle i amgueddfeydd ymgysylltu mewn ffyrdd newydd, y tu hwnt i'r ymweliad ffisegol. Gofynnodd Sbotolau 2015 i amgueddfeydd am eu presenoldeb ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

- Mae gan 97% o'r amgueddfeydd wefan yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg hwn. Mae hyn wedi cynyddu o 86% a nodwyd yn adroddiad Sbotolau 2011. Mae gwefannau amgueddfeydd yn gwasanaethu llawer o wahanol gynulleidfaoedd, o dwristiaeth i addysg, a gall eu cynnwys amrywio o wybodaeth sylfaenol i ymwelwyr i ymchwil fanwl a chasgliadau cyfan sydd ar gael ar-lein.
- Mae presenoldeb ar-lein yn fwyfwy pwysig wrth ymgysylltu â chynulleidfaoedd a gall fod yn hanfodol wrth ddarparu gwybodaeth 'ddarganfod' i ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr.


[13] www.aim-museums.co.uk/downloads/f6e017ac-8f11-11e3-8be4-001999b209eb.pdf, p.2, op cit
[14] www.aim-museums.co.uk/downloads/f6e017ac-8f11-11e3-8be4-001999b209eb.pdf, p.5, op cit
[15] Noder, gan fod y ffigurau hyn wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, efallai na fydd cyfanswm nifer yr ymweliadau yn y tabl hwn yn cyfateb i gyfanswm yr ymweliadau'n gyffredinol

- Yn ôl Arolwg Llywodraeth Cymru o Anghenion Gwybodaeth Ymwelwyr yn 2013, roedd gwefannau yn cael eu defnyddio fwyfwy i gynllunio[16]:
  - Roedd 52% o ymwelwyr tramor yn defnyddio gwefan am wybodaeth cyn eu taith;
  - Roedd 45% o ymwelwyr o'r DU yn defnyddio gwefan am wybodaeth cyn eu taith;
  - Roedd 17% o ymwelwyr dydd yn defnyddio gwefan am wybodaeth cyn eu taith;
- Cafodd gwefannau amgueddfeydd gyfanswm o 3,871,624 o ymwelwyr unigryw yn 2013/14, sy'n tanlinellu pwysigrwydd gwefannau wrth gefnogi'r ymgysylltu ag amgueddfeydd.
- Gofynnwyd i amgueddfeydd hefyd a oeddent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Dywedodd 91% (71) eu bod yn gwneud hynny, sy'n sylweddol uwch na'r 45 o amgueddfeydd a ddywedodd eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn arolwg blaenorol Sbotolau. Roedd gan amgueddfeydd 236,293 o ddilynwyr ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd oedd Facebook a Twitter. Gofynnodd yr arolwg am ddata ar gyfer 2013/14. Fodd bynnag, ni allai nifer o amgueddfeydd gael gafael ar ddata hanesyddol, felly darparwyd data a oedd yn gywir ar adeg cwblhau'r arolwg, felly dylai'r ffigurau hyn gael eu trin fel canllaw yn unig.

**Ffigur 3.3.1: Nifer gyfartalog o ymwelwyr â gwefannau yn ôl maint amgueddfeydd yn 2013/14**




**Ffigur 3.3.2: Nifer gyfartalog o danysgrifwyr cyfryngau cymdeithasol yn 2013/14**




## 3.4 Amgueddfeydd a dysgu

Mae dysgu ac addysg yn swyddogaethau pwysig i bob amgueddfa. Mae 'Hyrwyddo Addysg' yn un o brif ddibenion amgueddfeydd sydd wedi'u sefydlu'n elusennau[17]. Edrychodd Sbotolau 2015 ar ansawdd a nifer y cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol a ddarperir, drwy ddata rhifol a Datganiadau Cwmpas.

- Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu data ar nifer y sesiynau a chyfranogwyr mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol yn 2013/14. Darparodd amgueddfeydd gyfanswm o 11,597 o sesiynau dysgu ac ymgysylltwyd â 625,578 o gyfranogwyr. Nid oes data cymharol ar gael o arolwg blaenorol Sbotolau gan mai dim ond nifer y sesiynau allgymorth a phartneriaethau â chymunedau lleol a nodwyd. Ni chasglwyd nifer y cyfranogwyr.

[16] Visitor Information Needs survey 2013 – www.gov.wales/docs/caecd/research/130901-visitor-information-needs-2013-en.pdf
[17] The Establishment and Maintenance of a Museum and/or Art Gallery', (Saesneg yn unig) Y Comisiwn Elusennau www.charity-commission.gov.uk/Start_up_a_charity/default.aspx


- Mae ‘Strategaeth Amgueddfeydd Cymru’ yn annog amgueddfeydd i ddefnyddio’r fframwaith ‘Annog Addysg’ i gynllunio a gwerthuso dysgu[18]. Mae’n debygol bod gan amgueddfeydd sy’n cyrraedd lefel tri neu uwch yn y datganiadau cwmpas dysgu ddealltwriaeth o’r fframwaith a’u bod yn ei ddefnyddio.
- Mae 79% o’r amgueddfeydd yn cyrraedd lefel tri neu uwch ar gyfer dysgu ffurfiol ac mae 88% yn ei chyrraedd ar gyfer dysgu anffurfiol. Mae hyn yn newid diddorol i arolwg blaenorol Sbotolau lle’r oedd 81% o’r amgueddfeydd yn gwneud ar gyfer dysgu ffurfiol ond dim ond 75% oedd yn gwneud ar gyfer dysgu anffurfiol. Gallai’r newid hwn gael ei egluro o bosibl gan y ffordd y mae ymatebwyr wedi diffinio arlwy dysgu eu hamgueddfa.
- Nododd arolwg blaenorol Sbotolau fod llai o amgueddfeydd yn y grŵp craidd yn ymateb i’r datganiad cwmpas dysgu ar lefel tri neu uwch. Ar gyfer dysgu ffurfiol mae’r rhain wedi parhau i ostwng, o 86% i 79%. Fodd bynnag, ar gyfer dysgu anffurfiol mae wedi cynyddu o 78% i 86%. Gallai’r cwymp hwn gael ei egluro gan y ffaith bod llai o staff cymwysedig sy’n gallu cynnig cyfleoedd dysgu ffurfiol, a nodir gan newidiadau yn y gweithlu a ddangosir yn Ffigur 5.4.1.

### O dan y Sbotolau

**Bwthyn Gweithiwr Haearn Joseph Parry**

Yn 2013, gweithiodd staff addysg o Gastell Cyfarthfa mewn partneriaeth ag Ysgol Babanod Brecon Road, Merthyr Tudful, er mwyn cyflwyno prosiect ar gyfer Menter Ysgolion Treftadaeth Cymru. Arweiniodd y prosiect at ddisgyblion yn cynnal teithiau tywys mewn gwisgoedd o amgylch yr amgueddfa a daeth dros 120 o bobl i’r digwyddiad. Enillodd y prosiect y wobr gyntaf yng nghategori ‘Ysgol Babanod’ y Fenter.

### Ffigur 3.4: Lefelau gwasanaeth cyfartalog darpariaeth ddysgu yn ôl y math o amgueddfa a’i maint




| | Annibynnol | ALl | Cenedlaethol | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Bach | Canolig | Mawr | Pob amgueddfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Ffurfiol | 3.10 | 4.26 | 5.86 | 3.30 | 3.19 | 3.68 | 5.17 | 3.83 |
| Dysgu Anffurfiol | 3.55 | 4.10 | 5.00 | 3.80 | 3.68 | 3.67 | 4.83 | 3.94 |

[18] Strategaeth Amgueddfeydd Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010 t.16, 3.4.2, op cit

## 3.5 Amgueddfeydd a chymunedau lleol

- Nid dim ond mewn amgueddfeydd y cynigir cyfleoedd dysgu. Mae gwaith allgymorth yn rhan bwysig o'r arlwy dysgu y mae llawer o amgueddfeydd yn ei gynnig ac mae'n ffordd bwysig o gynnwys cymunedau lleol nad ydynt efallai'n defnyddio adeilad yr amgueddfa. O ran cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, darparodd amgueddfeydd 2,419 o sesiynau ac ymgysylltodd â 124,992 o gyfranogwyr fel rhan o weithgareddau dysgu ac allgymorth y tu allan i'r amgueddfa.

## 3.6 Amgueddfeydd a chydraddoldebau

- Mae gan amgueddfeydd rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi cydraddoldeb mewn cymdeithas a dylai hyn gael ei adlewyrchu drwy eu cynulleidfaoedd, eu casgliadau a'u sefydliad a'u gweithlu cyfan. Mae pwysigrwydd cydraddoldeb yn destun amlwg yn fersiwn ddiweddaraf y Cod Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Amgueddfeydd ym mis Tachwedd 2015[19].
- Gall amgueddfeydd fynd i'r afael â chydraddoldebau mewn amrywiaeth o ffyrdd ond un o'r rhai mwyaf amlwg yw drwy arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau a raglennir ganddynt.
- Roedd 80% o'r amgueddfeydd wedi cynnal arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau a oedd yn ymwneud yn benodol ag o leiaf un maes cydraddoldeb yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cymharu â dim ond 58% o amgueddfeydd a oedd wedi gwneud hynny ar adeg arolwg blaenorol Sbotolau 2011. Roedd a wnelo'r mwyaf cyffredin ag oedran; cynhaliodd 48% arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau a oedd yn targedu pobl ifanc (16-25) yn benodol a thargedodd 39% bobl hŷn (60+). Cynhaliodd 31% arddangosfeydd, digwyddiadau neu weithgareddau a oedd yn targedu siaradwyr Cymraeg. Y meysydd cydraddoldeb hyn oedd y rhai y darparwyd ar eu cyfer fwyaf hefyd yn 2011, tra bod darpariaeth ar gyfer y meysydd cydraddoldeb eraill hefyd wedi parhau'n gymharol gyson.

### O dan y Sbotolau


**Clywed y Cyn-guddiedig**

Ym mis Ionawr 2015 lansiwyd arddangosfa Clywed y Cyn-guddiedig yn Amgueddfa Abertawe. Mae'r arddangosfa yn adrodd hanes cleifion, eu perthnasau a staff Ysbyty Hensol, sefydliad a fodolai i bobl ag anableddau dysgu.


Mae'r arddangosfa yn rhan o brosiect Clywed y Cyn-guddiedig Mencap Cymru, a dderbyniodd grant o £292,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a grant o £18,000 gan Lywodraeth Cymru. Bydd y prosiect tair blynedd yn canolbwyntio ar chwe ysbyty arhosiad hir fel Hensol, gydag arddangosfeydd yn cael eu cynnal mewn chwe amgueddfa ranbarthol. Dyma'r prosiect cyntaf o'i fath i'w gynnal ledled Cymru a bydd yn olrhain rhan guddiedig o hanes Cymru gan yr ysbytai a gaeodd yn 2006. Gan weithio mewn partneriaeth â Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, caiff arddangosfa barhaol ei chreu yn Sain Ffagan fel bod gwybodaeth am ysbytai arhosiad hir Cymru ar gael ac yn hygyrch i'r cyhoedd, gan feithrin gwell dealltwriaeth o ran o'n cymdeithas nas cynrychiolwyd yn ddigonol yn flaenorol.

[19] Code of Ethics for Museums (Saesneg yn unig), Cymdeithas Amgueddfeydd 2015 www.museumsassociation.org/ethics/code-of-ethics

## Ffigur 3.6.1: Darpariaeth ar gyfer meysydd cydraddoldeb gwahanol yn ôl y math o amgueddfa, Sbotolau 2015





## Ffigur 3.6.2 Darpariaeth ar gyfer meysydd cydraddoldeb gwahanol yn ôl y math o amgueddfa, Sbotolau 2011



## 3.7 Amgueddfeydd ac archwiliadau mynediad

- Mae Strategaeth Amgueddfeydd Cymru yn annog pob amgueddfa i gynnal archwiliadau mynediad llawn er mwyn llywio a blaenoriaethu gwelliannau. Mae cael datganiad mynediad sy'n ymdrin â mynediad corfforol, deallusol, cymdeithasol, daearyddol a diwylliannol hefyd yn un o ofynion y Safon Achredu a dylai gwneud gwaith o'r fath er mwyn bodloni'r rhain fod yn rhan o unrhyw flaengynllunio.
- Roedd 67% (52) o'r amgueddfeydd a atebodd y cwestiwn hwn wedi cynnal archwiliad mynediad llawn. Nododd yr ymatebwyr a oedd yn weddill nad oeddent yn gwybod pryd y cynhaliwyd yr archwiliad llawn diwethaf o fynediad. Mae hyn yn gryn dipyn o gynnydd o gymharu â'r 45% (47) a oedd wedi cynnal archwiliad mynediad llawn ar adeg arolwg blaenorol Sbotolau. Gall y cynnydd hwn fod yn rhannol gysylltiedig â'r ganran uchel o amgueddfeydd sy'n rhan o'r Cynllun Achredu ac felly'n fwy tebygol o fod wedi cynnal archwiliad mynediad llawn.
- Er bod y mwyafrif wedi cynnal archwiliadau mynediad llawn, dim ond 40% a oedd wedi gwneud hynny yn y tair blynedd diwethaf, gyda rhai amgueddfeydd wedi cynnal eu harchwiliad llawn diwethaf nôl yn 2005. Mae'r canlyniad hwn yn annisgwyl, o ystyried bod y Safon Achredu yn gofyn bod amgueddfeydd wedi cynnal asesiad o anghenion mynediad yn y pum mlynedd diwethaf.

### Ffigur 3.7: Blwyddyn archwiliad llawn diwethaf amgueddfa o fynediad



# 4. Casgliad i'r Genedl

Mae casgliadau o arteffactau'n greiddiol i amgueddfeydd. Gofynnodd Sbotolau 2015 gwestiynau am lefelau gofalu am gasgliadau a'u rheoli yn ogystal ag achosion o gaffael a gwaredu eitemau ac am y casgliadau a gaiff eu storio er mwyn rhoi syniad o'r modd y mae amgueddfeydd yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chasglu eitemau'n gynaliadwy. Mae 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru' yn annog dull gweithredol a chynaliadwy o reoli casgliadau ac mae angen cael syniad o weithgarwch cyfredol er mwyn gallu monitro tueddiadau.


Ar gyfer Sbotolau 2015, penderfynwyd peidio â chynnal arolwg o'r mathau o gasgliadau a'u maint, er mwyn gofyn am lai o wybodaeth gan amgueddfeydd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y math o gasgliadau sydd gan amgueddfeydd a'u maint yn dueddol o aros yn gymharol statig dros gyfnodau byr o amser.

Yn arolwg 2011, roedd tua 5.5 miliwn o eitemau yng ngofal amgueddfeydd yng Nghymru. Roedd y rhan helaeth (4.5 miliwn) yng ngofal Amgueddfa Cymru, gydag ychydig yn fwy nag 1 filiwn yng ngofal amgueddfeydd lleol ac eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

## 4.1 Lefelau gofalu am gasgliadau a'u rheoli

- Mae lefelau gofalu am gasgliadau a'u rheoli wedi parhau'n gymharol gyson ers yr arolwg Sbotolau diwethaf. Ychydig iawn o newid gwirioneddol a fu yng ngraddau cyfartalog amgueddfeydd ar gyfer y datganiadau cwmpas.
- Ar gyfer amgueddfeydd a ymatebodd yn 2015 a 2011, arhosodd lefelau cyfartalog gofalu am gasgliadau a'u rheoli ar 4.3. Yr unig newidiadau o bwys oedd cwymp bach yn y radd ar gyfer arddangos a glanhau o 4.56 ar gyfartaledd i 4.41 ymhlith y grŵp craidd o ymatebwyr.
- Fel yn 2011, storio yw'r her fwyaf o ran gofalu am gasgliadau gyda lefelau'n cwympo o 3.81 i 3.75 ar gyfer y grŵp craidd a'r rhai a ymatebodd i arolygon 2015 a 2011. Lefelau safonau storio oedd yr ail isaf o blith yr holl Ddatganiadau Cwmpas yn 2015.

**Ffigur 4.1: Lefelau cyfartalog gofalu am gasgliadau a'u rheoli: Monitro Amgylcheddol; Rheolaeth Amgylcheddol; Storio a Glanhau; Arddangos a Glanhau; Dogfennaeth**




## 4.2 Caffaeliadau a gwarediadau diweddar

Gofynnwyd i amgueddfeydd nodi sawl eitem roeddent wedi eu caffael a'u gwaredu yn y ddwy flynedd ddiwethaf (2013 a 2014) drwy rodd, drwy eu prynu ac, yn achos eu gwaredu, drwy eu dinistrio.

- Bu lleihad sylweddol yn nifer y caffaeliadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Caffaelwyd cyfanswm o 12,984 o eitemau gan amgueddfeydd, naill ai drwy eu prynu neu drwy eu cael yn rhodd, yn 2013 a 2014. O gymharu â hynny, yn y ddwy flynedd flaenorol, ar adeg arolwg diwethaf Sbotolau (2009 a 2010) bu 249,587 o gaffaeliadau. Er na ellir cymharu'r niferoedd hyn, oherwydd y sampl lawer llai yn 2015, mae'r duedd am i lawr yr un mor amlwg ymhlith y grŵp craidd o amgueddfeydd, a gwympodd 96% o 240,933 i 9,921. Dylid nodi hefyd nad yw newidiadau yn nifer y caffaeliadau o reidrwydd yn adlewyrchu newidiadau mewn gweithgarwch caffael nac arwyddocâd caffaeliadau.

- Roedd nifer yr eitemau a adawodd casgliadau amgueddfeydd hefyd yn isel. Dywedodd 89% o'r amgueddfeydd a atebodd y cwestiwn nad oedd unrhyw eitemau wedi eu gwerthu na'u dinistrio. Dim ond dwy amgueddfa a nododd fod eitemau wedi cael eu gwerthu tra nododd chwe amgueddfa fod eitemau wedi cael eu dinistrio. Ni wnaeth yr arolwg holi pam y'u gwaredwyd.

## O dan y Sbotolau


### Mantell Aur yr Wyddgrug

Yn 2013, benthycodd Amgueddfa Wrecsam Fantell Aur yr Wyddgrug oddi wrth yr Amgueddfa Brydeinig fel rhan o'i harddangosfa Mentyll, Gleiniau a Beddau – Mantell yr Wyddgrug: Golwg Newydd. Llwyddodd Mantell yr Wyddgrug, mantell aur ddefodol o'r Oes Efydd a ddarganfuwyd yn Sir y Fflint 180 o flynyddoedd yn ôl ac un o arteffactau mwyaf gwerthfawr yr Amgueddfa Brydeinig, i ddenu dros 16,500 o ymwelwyr dros gyfnod o chwe wythnos.



Hawlfraint Cyngor Sir Ynys Môn

### Ffigur 4.2: Cyfanswm nifer y caffaeliadau yn ôl amgueddfeydd yn 2013 a 2014



## 4.3 Storio

Fel mae'r ymateb i'r datganiad cwmpas ar storio a glanhau yn ei awgrymu, mae storio priodol yn her fawr i lawer o amgueddfeydd.

- Yn 2006, dywedodd 42% o'r amgueddfeydd fod eu storfeydd eisoes yn llawn a dywedodd 25% arall y byddent yn llawn erbyn 2011. Yn 2011, nododd 41% fod eu storfeydd eisoes yn llawn a nododd 25% y byddent yn llawn erbyn 2016.
- Mae canlyniadau Sbotolau 2015 yn parhau i ddilyn y duedd hon, gyda 49% o'r 67 o amgueddfeydd a atebodd y cwestiwn yn nodi bod eu storfeydd eisoes yn orlawn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 8%.
- Tynnodd yr adroddiad Sbotolau blaenorol sylw at gysylltiad rhwng amgueddfeydd a oedd yn cyflawni lefelau pedwar i chwech yn y datganiad cwmpas polisi a chynllunio a'r un amgueddfeydd hynny yn llai tebygol o fod â storfeydd sy'n orlawn. Awgryma canlyniadau arolwg 2015 nad yw hyn yn wir mwyach, gydag amgueddfeydd yn nodi bod eu storfeydd naill ai'n llawn neu y byddent yn llawn ymhen pum mlynedd fwy neu lai, hyd yn oed ar gyfer yr holl lefelau a gyflawnwyd ym maes polisi a chynllunio, gan awgrymu bod storfeydd sy'n orlawn bellach yn broblem gyffredinol.


### O dan y Sbotolau

Yn 2011/12, cafodd Amgueddfa ac Oriel Casnewydd gymorth gan yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, drwy grant Arloesi a Datblygu gan Lywodraeth Cymru, i gynnal prosiect rhesymoli storfeydd. Cafodd mwy na 1,200 o weithiau ffrâm ar bapur eu tynnu o'u fframiau a'u rhoi mewn bocsys; mae hyn wedi gwella amodau storio ac wedi golygu bod mwy o le i hongian lluniau. Hefyd, derbyniodd yr amgueddfa grant Arloesi a Datblygu yn 2014 i ddigideiddio lluniau dyfrlliw yn ei chasgliad. Cafodd mwy na 2,000 o luniau eu digideiddio a chafodd hanner o'r rhain eu lanlwytho ar wefan Casgliad y Werin.



Arlunydd anhysbys, Castell Casnewydd ar ôl llun dyfrlliw gan JMW Turner, c.1800

### Ffigur 4.3 Amcangyfrif o'r amser a gymer i storfeydd fynd yn orlawn




# 5. Gweithio'n Effeithiol

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff amgueddfeydd eu rhedeg, gan edrych ar weithluoedd, polisïau a chynlluniau, adeiladau a gweithrediadau ariannol. Mae gan y modd y caiff amgueddfeydd eu rheoli oblygiadau mawr o ran eu gallu i ofalu am eu casgliadau a chynnig gwasanaeth o safon uchel i'w cymunedau a'u hymwelwyr. Gofynnodd Sbotolau 2015 gwestiynau am niferoedd, cyflogaeth a chyfleoedd datblygu i staff a gwirfoddolwyr.

- Gofynnwyd i amgueddfeydd hunanasesu lefelau perfformiad ym maes polisi a chynllunio, datblygu'r gweithlu a darparu adeiladau. Yn sgil y lefelau isel a welwyd yn 2006, penderfynwyd cynnwys gwelliannau ym maes polisi a chynllunio fel cam gweithredu yn 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru'.
- Yn 2011, cafodd ffynonellau incwm eu harolygu am y tro cyntaf. Aeth arolwg 2015 gam ymhellach drwy ofyn i amgueddfeydd roi ffigurau incwm a gwariant gwirioneddol ar gyfer nifer o gategorïau yn cynnwys incwm a enillwyd, cymhorthdal cyhoeddus, incwm a gyfrannwyd a grantiau. Bwriadwyd i hyn ddarparu meincnodau ariannol y gallai amgueddfeydd eu defnyddio er mwyn asesu eu cyflwr ariannol.

### Ffigur 5: Lefelau gwasanaeth cyfartalog ym meysydd rheoli; Polisi a Chynllunio; Datblygu Staff a Gwirfoddolwyr; Darparu Adeiladau Addas





## 5.1 Polisi a chynllunio

- Mae'r lefelau a gyflawnwyd ar gyfer safonau polisi a chynllunio wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolwg Sbotolau diwethaf gyda 92% (66) o'r ymatebwyr yn cyflawni lefel tri neu uwch yn y datganiadau cwmpas.
- Cyflawnodd 63% (45) o'r ymatebwyr lefel pedwar neu uwch, o gymharu ag ychydig o dan hanner yn 2011. Mae hyn yn gam sylweddol tuag at gyflawni cam gweithredu 5.1 yn 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru'[20].
- Mae'r amgueddfeydd hynny sy'n cyflawni lefel uwch ar gyfer y datganiad cwmpas polisi a chynllunio hefyd yn dueddol o gyflawni lefelau uwch ar gyfer Datganiadau Cwmpas eraill fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos.
- Cyflawnodd yr amgueddfeydd a gofnododd lefel pedwar neu uwch 4.32 ar gyfartaledd ar gyfer pob maes tra cyflawnodd y rhai a gofnododd lefel tri neu is 3.54. Mae'n werth nodi mai dim ond 8% (6) o'r amgueddfeydd a gofnododd eu bod o dan lefel tri.

[20] Mae Cam Gweithredu 5.1 yn ceisio gwella lefelau polisi a chynllunio amgueddfeydd yng Nghymru 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru', t30, op cit

## Ffigur 5.1: Effaith polisi a chynllunio ar lefelau gwasanaeth eraill




## 5.2 Gweithlu

Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu niferoedd cyffredinol eu gweithluoedd, boed yn weithwyr â thâl neu'n wirfoddolwyr, a pha rolau a gyflawnwyd ganddynt. Gofynnwyd iddynt hefyd roi gwybodaeth am faint o gyfleoedd datblygu staff a gwirfoddolwyr a ddarparwyd ganddynt.

- Ar gyfer Sbotolau 2015, gofynnwyd i amgueddfeydd roi data ar weithluoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol (mis Ebrill i fis Mawrth) yn hytrach nag ar gyfer y flwyddyn galendr fel mewn arolygon Sbotolau blaenorol. Gwnaed y newid hwn er mwyn cysoni gwybodaeth am y gweithlu â gwybodaeth ariannol a ddarperir gan amgueddfeydd, a gesglir ar sail blynyddoedd ariannol, ac er mwyn gallu gwneud cymariaethau â data a gasglwyd gan amgueddfeydd drwy ddarparwyr Datblygu Amgueddfeydd yn Lloegr.
- Mae 3,496 o bobl yn gweithio mewn amgueddfeydd yng Nghymru yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan amgueddfeydd ar gyfer 2013/14. Mae hyn yn cymharu â 3,435 yn 2010 a 2,640 yn 2006. Efallai fod y cynnydd hwn yn annisgwyl o ystyried y ffaith bod sampl arolwg 2015 gryn dipyn yn llai (80 o ymatebion) nag arolwg 2011 (106 o ymatebion). Fodd bynnag, gall y cynnydd hwn gael ei egluro'n gyfan gwbl gan gynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr.
- Pan archwilir y ffigurau ar gyfer y grŵp craidd, bu cwymp o 4% yn y gweithlu â thâl.
- Roedd 1,196 o staff â thâl mewn amgueddfeydd, gyda 902 Cyfwerth ag Amser Llawn, yn 2013/14.
- Ar gyfartaledd, mae amgueddfeydd awdurdodau lleol yn cyflogi wyth aelod o staff â thâl, mae amgueddfeydd annibynnol yn cyflogi tri, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyflogi 24 ac mae Amgueddfa Cymru yn cyflogi 88.
- Bu cynnydd o 78% yn nifer y gwirfoddolwyr ymhlith y grŵp craidd, a gynyddodd o 792 i 1,409.
- Mae amgueddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfrif am 30% o'r holl weithlu, er mai dim ond 13% o'r ymatebwyr a gynrychiolir. Mae hyn yn bennaf oherwydd y nifer fawr o wirfoddolwyr sydd ganddynt. Mae Amgueddfa Cymru a'r sector annibynnol yn cyfrif am 24% a 27% o'r gweithlu yn ôl eu trefn tra bod amgueddfeydd awdurdodau lleol yn cynrychioli 19% oherwydd y nifer lai o wirfoddolwyr sydd ganddynt.

- Roedd 10 o'r amgueddfeydd Achrededig yn cael eu rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr, heb unrhyw staff â thâl. Roedd y rhain i gyd yn amgueddfeydd annibynnol.
- Gofynnwyd i amgueddfeydd nodi pa rolau a gyflawnwyd gan eu gweithlu. Nid oedd y cwestiwn hwn yn gysylltiedig â chyfanswm nifer y gweithlu a ddarparwyd ganddynt ac felly nid yw'r niferoedd yn cyfateb. O'r herwydd, dylid trin y canlyniadau fel canllaw yn unig.

## 5.3 Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn rhan gynyddol bwysig o weithlu amgueddfa. Mae eu cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth enfawr i amgueddfeydd, o wella profiad ymwelwyr i ofalu am y casgliadau a'u dogfennu, i gynllunio busnes a rheoli'r cyfrifon. Mae llawer o amgueddfeydd hefyd yn dibynnu ar ymddiriedolwyr gwirfoddol er mwyn helpu i 'lywio'r llong' a sicrhau bod amgueddfeydd yn gynaliadwy ar adegau heriol.

- Mae 66% o'r gweithlu cyfan yn wirfoddol. Mae hyn wedi cynyddu o'r 62% a nodwyd yn arolwg 2011. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg, roedd cyfanswm o 2,300 o bobl yn gwirfoddoli mewn amgueddfeydd yn 2013/14.
- Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd â'r nifer fwyaf o wirfoddolwyr, gyda chyfanswm o 846, a gyfrannodd y nifer fwyaf o oriau, 74,543 yn 2013/14.
- Amgueddfa Cymru a nododd y twf mwyaf o ran nifer y gwirfoddolwyr, a gynyddodd o 70 yn 2010 i 230 yn 2013/14.
- Cefnogir 86% o'r amgueddfeydd (64) gan wirfoddolwyr. Dim ond 10 amgueddfa a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw wirfoddolwyr.
- Ar gyfartaledd, cyfrannodd gwirfoddolwyr 89 awr y flwyddyn yn 2013/14 (yn seiliedig ar 51 o ymatebion a oedd â gwirfoddolwyr ac a ddarparodd nifer y gwirfoddolwyr a'u horiau).
- Cyfrannodd gwirfoddolwyr 177,814 o oriau amcangyfrifedig yn 2013/14. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi pennu bod amser gwirfoddolwyr yn werth hyd at £350 y dydd am wasanaethau proffesiynol, £150 am waith medrus a £50 am waith heb sgiliau yn seiliedig ar ddiwrnod 7.5 awr[21]. Ni chasglwyd gwybodaeth am y dadansoddiad o lefel y gwaith a gyflawnwyd gan wirfoddolwyr yn 2015, ond gan ddefnyddio'r un gymhareb â'r hyn a sefydlwyd yn 2011[22], gall gwerth amser gwirfoddolwyr i amgueddfeydd yng Nghymru gael ei gyfrif fel a ganlyn:

  163,590 / 7.5 x £50 = £1,090,600

  14,225 / 7.5 x £150 = £284,500


  Cyfanswm = £1,375,100
- Er bod cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu o gymharu â Sbotolau 2011, mae nifer yr oriau gwirfoddoli a gyfrannwyd wedi lleihau. Yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr oriau gwirfoddoli a gyfrannwyd wedi'i rannu â chyfanswm nifer y gwirfoddolwyr, mae'r nifer gyfartalog o oriau wedi'i gyfrannu gan wirfoddolwyr bob blwyddyn wedi lleihau o 114 yn 2010 i 89 yn 2015.
- Mae gweithlu â thâl y grŵp craidd wedi lleihau 4% ers arolwg Sbotolau 2011, tra bod cynnydd o 78% yn nifer y gwirfoddolwyr.

## 5.4 Datblygu'r gweithlu


- Ar gyfartaledd, cyflawnodd amgueddfeydd a nododd lefel pedwar neu uwch ar gyfer datganiad cwmpas datblygu'r gweithlu lefelau cyfartalog uwch ar gyfer pob lefel o wasanaeth.
- Cyflawnodd 52 o amgueddfeydd lefel pedwar neu uwch, sy'n uwch na'r 45 a gyflawnodd y lefel hon yn 2011, er bod y sampl yn llai yn 2015.
- Cafodd y lefelau uwch o ddatblygu'r gweithlu eu heffeithiau mwyaf ar lefelau gwasanaeth defnyddwyr, yn arbennig mynediad i bobl anabl, dysgu ffurfiol ac anffurfiol, datblygu cynulleidfaoedd a marchnata ac arddangos.

[21] www.wcva.org.uk/advice-guidance/volunteers?seq.lang=cy-GB
[22] Yn 2011, cafodd y gymhareb ar gyfer gwaith heb sgiliau a gwaith medrus ei chyfrifo'n 92:8. www.gov.wales/docs/drah/publications/130503spotlight2011cy.pdf, t73, op cit.

Ffigur 5.4.1: Cyfanswm y gweithlu (staff â thâl a gwirfoddolwyr) 2010 (dadansoddiad o'r gweithlu cyfan: 3,435) a 2013/14 (2494) yn ôl rôl





Ffigur 5.4.2: Cyfanswm gweithlu pob amgueddfa 2010 a 2013/14 yn ôl y math o gyflogaeth (gwirfoddol/â thâl)




Yn 2010, darparwyd data ar wirfoddolwyr gan 78 o ymatebwyr a darparwyd data ar staff â thâl gan 90 o ymatebwyr.
Yn 2015, darparwyd data ar wirfoddolwyr gan 74 o ymatebwyr a darparwyd data ar staff â thâl gan 72 o ymatebwyr.


**Ffigur 5.4.3: Gweithlu'r grŵp craidd 2010 a 2013/14 yn ôl y math o gyflogaeth (gwirfoddol/â thâl).**





**Ffigur 5.4.4: Cyfrannau gweithlu yn ôl y math o amgueddfa**




## Ffigur 5.4.5: Cyfrannau gweithlu yn ôl y math o amgueddfa a’r math o gyflogaeth (gwirfoddol/â thâl)




## Ffigur 5.4.6: Lefelau gweithlu cyfartalog yn ôl y math o amgueddfa



Ffigur 5.4.7: Lefelau gweithlu cyfartalog yn ôl maint amgueddfa




Ffigur 5.4.8: Oriau gwirfoddoli cyfartalog a gyfrannwyd yn ôl y math o amgueddfa a'i maint (yn seiliedig ar 61 o ymatebion a roddodd niferoedd ac oriau gwirfoddolwyr)





Figure 5.4.9: Lefelau gwasanaeth amgueddfeydd a ragorodd ar y gofynion sylfaenol ar gyfer datblygu staff a gwirfoddolwyr





## 5.5 Cyllidebau

Ar gyfer arolwg 2015, newidiwyd y ffordd y gofynnwyd i amgueddfeydd am eu gwybodaeth ariannol, er mwyn darparu meincnodau y gallai amgueddfeydd eu defnyddio er mwyn asesu eu cyflwr ariannol.

Rhoddir gwybodaeth gyllidebol gyfartalog am fod sawl amgueddfa yn gweithredu cyllidebau canolog sy'n cwmpasu sawl safle. Gall rhai elfennau cyllidebol gael eu gweithredu'n ganolog ond gall eraill gael eu datganoli i safleoedd unigol. Gall fod yn anodd dwyn ynghyd wybodaeth ariannol gyson o blith grŵp mor amrywiol o amgueddfeydd, sydd yn aml â dulliau cyfrifyddu a blynyddoedd ariannol gwahanol. Felly, dylid darllen gwybodaeth ariannol fel gwybodaeth ddangosol.

- Yn eu hanfod, mae'r ffigurau cyllidebol cyffredinol yn cynrychioli grym gwario amgueddfeydd tra bod y dadansoddiad yn ystyried yr elfennau unigol. Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu data cyllidebol ar gyfer y tair blynedd diwethaf (2011/12, 2012/13 a 2013/14). Darparodd 50 o amgueddfeydd ddata cyllidebol ar gyfer y tair blynedd tra oedd gan 32 o amgueddfeydd ddata cyflawn ar gyfer y cyfnod 2008/09 i 2013/14.
- Mae cyllidebau'n crebachu. Ar gyfartaledd, cwympodd cyllidebau amgueddfeydd lleol 1% rhwng 2011/12 a 2013/14.
- Cynyddodd cyllidebau blynyddol ymhlith y grŵp craidd o amgueddfeydd mewn termau enwol rhwng 2008/09 a 2013/14. Fodd bynnag, petai chwyddiant yn cael ei ystyried yn y ffigurau cyllidebol blynyddol, byddent yn dangos cwymp mewn termau real.

**Ffigur 5.5: Cyllideb flynyddol gyfartalog ar gyfer amgueddfeydd lleol (32 o ymatebwyr) a'r grŵp craidd (28 o ymatebwyr) 2008/09 i 2013/14 (yn seiliedig ar amgueddfeydd a ddarparodd ddata ar gyfer pob blwyddyn)**




## 5.6 Incwm

Gyda'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae amgueddfeydd yn ceisio cynhyrchu incwm ac arallgyfeirio fwyfwy lle bo modd er mwyn cefnogi eu gweithrediadau. Am y tro cyntaf, gofynnodd Sbotolau 2015 i amgueddfeydd ddadansoddi ffynonellau incwm.

### 5.6.1 Taliadau mynediad

Mae taliadau mynediad yn ffynhonnell bwysig o incwm i lawer o amgueddfeydd. Fodd bynnag, dim ond un o blith nifer o ffrydiau incwm yw hyn ac mae llawer o amgueddfeydd yn parhau i ddarparu mynediad am ddim.

- Mae 49% o amgueddfeydd yn codi tâl mynediad, nid yw 47% yn gwneud hynny ac mae 4% weithiau'n codi tâl mynediad i arddangosfeydd er enghraifft.
- Mae 61% o amgueddfeydd awdurdodau lleol a 37% o amgueddfeydd annibynnol yn darparu mynediad am ddim.
- Ar hyn o bryd, polisi Llywodraeth Cymru yw darparu mynediad am ddim i Amgueddfa Cymru.
- Mae cyfran yr amgueddfeydd nad ydynt yn codi tâl wedi gostwng ychydig ers arolwg 2011. Fodd bynnag, y rheswm tebygol dros hyn yw bod y nifer fach o amgueddfeydd sy'n codi tâl mynediad yn cael effaith anghymesur ar y sampl lai.

### 5.6.2 Incwm wedi'i ennill

Mae incwm wedi'i ennill yn rhan fwyfwy pwysig o gyfansoddiad ariannol amgueddfa. Ynghyd â thâl mynediad, yr ymdrinnir ag ef ar wahân at ddibenion yr arolwg hwn, gall incwm wedi'i ennill gynnwys incwm o fanwerthu, arlwyo, digwyddiadau a lletygarwch, gweithgarwch addysgol ac unrhyw incwm arall o weithgarwch masnachu e.e. rhent eiddo.

- Roedd 90% (54) o'r amgueddfeydd a atebodd y cwestiwn hwn yn cynhyrchu incwm y tu hwnt i dâl mynediad, sy'n dangos y graddau y mae amgueddfeydd yn mynd ati i gyflawni gweithgareddau cynhyrchu incwm.
- Cafodd £5,377,340 ei gynhyrchu gan amgueddfeydd mewn incwm wedi'i ennill, gan gynnwys tâl mynediad yn 2013/14, yn seiliedig ar ymatebion gan 60 o amgueddfeydd.

### 5.6.3 Cymhorthdal cyhoeddus

Darperir y prif fathau o gymhorthdal cyhoeddus ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Amgueddfa Cymru, cyllid awdurdod lleol ar gyfer amgueddfeydd lleol, cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer amgueddfeydd milwrol a chyllid Addysg Uwch ar gyfer amgueddfeydd prifysgol. Mae nifer o amgueddfeydd annibynnol hefyd yn cael cyllid rheolaidd gan awdurdodau lleol.

- Derbyniodd amgueddfeydd £29,778,976 mewn cymhorthdal cyhoeddus yn 2013/14. O'r swm hwn, derbyniodd Amgueddfa Cymru £25,106,000, gyda'r gweddill, sef £4,672,976, yn mynd i amgueddfeydd lleol.
- Roedd 72% (41 o 57) o'r amgueddfeydd a atebodd y cwestiwn hwn yn cael cymhorthdal cyhoeddus.
- Roedd cymhorthdal cyhoeddus yn cyfrif am 73% o'r holl incwm a gofnodwyd gan bob amgueddfa.
- Mae lefelau'r cymhorthdal cyhoeddus a gaiff amgueddfeydd yn amrywio'n fawr. Ar gyfer amgueddfeydd annibynnol, roedd cymhorthdal cyhoeddus yn cyfrif am 20% o'u hincwm, tra ar gyfer amgueddfeydd awdurdod lleol oedd yn cyfrif am 76%.
- Nid oedd 18 o amgueddfeydd annibynnol, gan gynnwys eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn cael unrhyw gymhorthdal cyhoeddus, tra oedd 15 yn cael cymhorthdal cyhoeddus.

### 5.6.4 Incwm wedi'i gyfrannu

Mae hwn yn cynnwys yr holl arian a geir gan y cyhoedd neu gyfeillion (gan gynnwys cynlluniau cyfeillion/aelodau) na dderbynnir unrhyw fudd amdano, ynghyd ag unrhyw incwm o nawdd, cynlluniau aelodaeth gorfforaethol neu incwm arall nas enillir.

- Derbyniodd amgueddfeydd £3,039,496 mewn rhoddion yn 2013/14, yn seiliedig ar ymatebion gan 60 o amgueddfeydd.
- Derbyniwyd £1,206,945 mewn incwm arall a gyfrannwyd, yn seiliedig ar ymatebion gan 22 o amgueddfeydd. Nododd 30 o amgueddfeydd nad oeddent yn cael unrhyw incwm wedi'i gyfrannu heblaw am roddion.

### 5.6.5 Grantiau

Yn ôl y diffiniad, roedd hyn yn cynnwys yr holl arian a gafwyd ar ffurf incwm grant/prosiect o fewn y flwyddyn ariannol, heb gynnwys cyllid cyfalaf.

- Derbyniodd amgueddfeydd £1,324,556 mewn cyllid grant yn 2013/14. O'r 54 o amgueddfeydd a atebodd y cwestiwn, dywedodd 16 nad oeddent yn cael unrhyw gyllid grant.

### 5.6.6 Grantiau cyfalaf/incwm prosiect

Yn 2015, cafodd cwestiwn ar fuddsoddiad cyfalaf mewn amgueddfeydd ei gynnwys am y tro cyntaf er mwyn pennu llinell sylfaen i fesur buddsoddiad parhaus arno. Er na fyddai buddsoddiad cyfalaf yn gyson o flwyddyn i flwyddyn o reidrwydd, gall ddarparu dangosydd defnyddiol o'r buddsoddiad strategol hirdymor yn y sector. Mae buddsoddiad cyfalaf yn bwysig wrth alluogi amgueddfeydd i wella neu ehangu eu busnes er mwyn sicrhau y gallant gynnig mannau diddorol i gynulleidfaoedd ac ymateb i ddemograffeg a disgwyliadau newidiol ymwelwyr.


- Derbyniodd 16 o amgueddfeydd fuddsoddiad cyfalaf yn 2013/14, gan gynnwys saith amgueddfa Amgueddfa Cymru.
- Roedd buddsoddiad cyfalaf yn £3,302,400 yn 2013/14, gyda 91% yn Amgueddfa Cymru.
- Dim ond dwy amgueddfa awdurdod lleol a nododd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf, o gymharu â saith amgueddfa annibynnol.

## 5.7 Cymorth awdurdodau lleol

- O'r 53 o amgueddfeydd a nododd eu bod yn cael cymorth gan eu hawdurdod lleol (boed hynny'n ariannol neu mewn da), nododd pedair eu bod wedi cael mwy o gymorth rhwng 2013 a 2015, nododd 22 ei fod wedi aros yr un peth a nododd 27 eu bod yn cael llai o gymorth bellach.
- Mae 12 o amgueddfeydd bach yn cael cymorth gan Fentor Amgueddfa a gyflogir gan awdurdod lleol, ond ni wnaeth pum amgueddfa gydnabod y cymorth hwn yn eu hymatebion.[23]

[23] Cedwir gwybodaeth am drefniadau mentoriaid amgueddfeydd gan yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd


## Ffigur 5.7.1: Ffynonellau incwm pob amgueddfa yn ôl ei math




| | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Annibynnol | Awdurdod Lleol | Amgueddfa Cymru | Pob amgueddfa |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhorthdal cyhoeddus | £66,603 | £458,751 | £4,147,622 | £25,106,000 | £29,778,976 |
| Incwm wedi'i ennill (gan gynnwys tâl mynediad) | £592,803 | £1,266,572 | £596,730 | £2,912,000 | £5,377,340 |
| Incwm wedi'i gyfrannu | £54 | £251,112 | £43,007 | £3,950,000 | £4,246,441 |
| Grantiau | £0 | £241,198 | £700,358 | £383,000 | £1,324,556 |

Cymhorthdal cyhoeddus · Incwm wedi'i ennill (gan gynnwys tâl mynediad) · Incwm wedi'i gyfrannu · Grantiau


## Ffigur 5.7.2: Ffynonellau incwm pob amgueddfa yn ôl ei maint





| | Amgueddfeydd mawr | Amgueddfeydd canolig | Amgueddfeydd bach | Pob amgueddfa |
|---|---|---|---|---|
| Cymhorthdal cyhoeddus | £26,796,121 | £2,295,662 | £687,193 | £29,778,976 |
| Incwm wedi'i ennill (gan gynnwys tâl mynediad) | £4,258,199 | £606,446 | £512,696 | £5,377,340 |
| Incwm wedi'i gyfrannu | £4,029,659 | £114,174 | £102,608 | £4,246,441 |
| Grantiau | £510,953 | £663,961 | £149,642 | £1,324,556 |

Cymhorthdal cyhoeddus · Incwm wedi'i ennill (gan gynnwys tâl mynediad) · Incwm wedi'i gyfrannu · Grantiau


## Ffigur 5.7.3: Ffynonellau incwm amgueddfeydd sy'n codi tâl mynediad yn ôl eu maint 2013/14





## Ffigur 5.7.4: Ffynonellau incwm amgueddfeydd sydd â mynediad am ddim yn ôl eu maint 2013/14



## Ffigur 5.7.5: Ffynonellau incwm amgueddfeydd sy'n codi tâl mynediad yn ôl eu math 2013/14




## Ffigur 5.7.6: Ffynonellau incwm amgueddfeydd sydd â mynediad am ddim yn ôl eu math 2013/14



# 6. Gwasanaethau a ddarperir gan Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn darparu llawer o wasanaethau ar gyfer amgueddfeydd ledled Cymru. Mae'r cymorth a'r partneriaethau ag amgueddfeydd lleol yn amrywio o gydberthnasau ffurfiol i raglenni fel Cyfoeth Cymru Gyfan[24] i gysylltiadau personol rhwng unigolion sy'n darparu gwybodaeth a chyngor.

- Mae Amgueddfa Cymru yn glir ynghylch ei hymrwymiad i hyrwyddo a chyfrannu at gyflawni 'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-15'[25].
- Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg, ymddengys fod nifer yr amgueddfeydd sy'n defnyddio gwasanaethau Amgueddfa Cymru wedi lleihau. Gellid egluro hyn gan y ffaith bod llai o amgueddfeydd wedi ateb y cwestiwn neu fod diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn y mae gwasanaeth Amgueddfa Cymru yn ei olygu. Nododd nifer o amgueddfeydd fod cymryd rhan yn Cyfoeth Cymru Gyfan yn un o'u llwyddiannau. Fodd bynnag, ni wnaethant nodi eu bod wedi defnyddio un o wasanaethau Amgueddfa Cymru.
- Dywedodd 60% o'r amgueddfeydd lleol a ymatebodd i arolwg Sbotolau 2015 (44) eu bod yn defnyddio un o wasanaethau Amgueddfa Cymru.
- Y mathau mwyaf cyffredin o gymorth a gafwyd gan amgueddfeydd lleol oedd cyngor ar gasgliadau, cyngor ar gadwraeth a benthyciadau gwrthrychau.
- Amgueddfeydd annibynnol neu awdurdod lleol bach oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau a ddarparwyd gan Amgueddfa Cymru. Y rheswm dros hyn yw bod amgueddfeydd mawr yn fwy tebygol o feddu ar arbenigedd mewnol ac felly nid oes angen cymaint o gymorth gan Amgueddfa Cymru arnynt.
- Ymhlith y gwasanaethau eraill y dywedodd amgueddfeydd eu bod wedi eu defnyddio roedd cyngor ar arddangosfeydd, cyngor ar fenthyciadau, dylunio ac arddangos, adnabod gwrthrych, gwybodaeth am raglenni gwirfoddoli a chymorth gyda chynlluniau cyfeillion a noddwyr.
- Gall Amgueddfa Cymru gynnig cymorth eang ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd er mwyn darparu rhai gwasanaethau, gan gynnwys hyfforddiant. Cynghorir amgueddfeydd i gysylltu ag Amgueddfa Cymru neu'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd os nad ydynt yn siŵr am yr hyn sydd ar gael[26].

### O dan y Sbotolau

Yn 2015, cafodd Tŷ Weindio, Tredegar Newydd, Ganmoliaeth Arbennig yng Ngwobr Amgueddfeydd i'r Teulu y Telegraph am ei Chyfraniad Arbennig at y Gymuned Leol – y tro cyntaf i unrhyw amgueddfa gael y fath glod. Cydnabu'r hyn yr oedd teuluoedd lleol wedi'i ddweud am eu hamgueddfa a pha mor bwysig ydoedd iddynt.



Ffotograff drwy garedigrwydd y Telegraph/Kids in Museums

[24] www.gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/funding/sharing-treasures-review/?lang=cy
[25] Cynllun Gweithredol Amgueddfa Cymru 2014-15 www.museumwales.ac.uk/4440/
[26] Manylion Cyswllt Amgueddfa Cymru www.amgueddfacymru.ac.uk/ymholiadau/

### O dan y Sbotolau


**Rhannu Trysorau yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa**

Yn 2013, gydag arian a dderbyniwyd gan gynllun Cyfoeth Cymru Gyfan, newidiodd yr amgueddfa stordy yn oriel arddangos benodol dros dro. Ar gyfer yr arddangosfa gyntaf fel rhan o Cyfoeth Cymru Gyfan, benthycwyd detholiad o waith gan Syr Kyffin Williams o Lyfrgell Genedlaethol Cymru i ategu tri darn o waith o gasgliad parhaol yr amgueddfa. Yn sgîl achlysur lansio'r arddangosfa hon a'r oriel ei hun ym mis Gorffennaf 2013 gwelwyd niferoedd ymwelwyr uchaf a ddaeth i'r amgueddfa erioed ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r gofod arddangos dros dro wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi cynnal amrywiaeth eang o arddangosfeydd yn cynnwys cerfluniau, arddangosfeydd a arweinir gan y gymuned a hanes cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae rhestr aros o ddwy flynedd o arddangosfeydd gan arlunwyr a hanes cymdeithasol sy'n barod i arddangos yn yr oriel amlbwrpas hon.




(c) Hawlfraint y Goron (2016) Croeso Cymru


### Ffigur 6.1: Cymorth a gafwyd gan amgueddfeydd lleol drwy Amgueddfa Cymru yn ôl math



Ffigur 6.2: Cymorth a gafwyd gan amgueddfeydd lleol drwy Amgueddfa Cymru yn ôl maint




Ffigur 6.3: Math o wasanaeth a gafwyd gan amgueddfeydd lleol drwy Amgueddfa Cymru



# Atodiad A

## Rhestr o amgueddfeydd yn ôl eu maint, a bennir gan ffigurau blynyddol ar gyfer ymweliadau

### Mawr

Amgueddfa Abertawe
Amgueddfa ac Oriel Castell Cyfarthfa
Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Amgueddfa Lechi Cymru
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
Big Pit: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru
Castell Caerdydd
Castell Penrhyn
Castell Powys
Castell y Waun
Erddig
Firing Line: Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd
Oriel Ynys Môn
Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
Stori Caerdydd
Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan

### Canolig

Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Siriol Wrecsam
Amgueddfa ac Oriel Casnewydd
Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-Pysgod
Amgueddfa Cas-gwent
Amgueddfa Ceredigion
Amgueddfa Cyflymder
Amgueddfa Dyffryn Maes-glas
Amgueddfa Maenor Scolton
Amgueddfa Nelson a Chanolfan Hanes Lleol
Amgueddfa Pontypridd
Amgueddfa Pont-Y-Pŵl
Amgueddfa Rheilffyrdd Bach Cul
Amgueddfa Sirol Caerfyrddin
Amgueddfa Wlân Cymru
Amgueddfa'r Fenni
Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir y Fflint
Llanerchaeron
Llety'r Barnwr
Oriel Gelf Glynn Vivian
Plas Yn Rhiw
Prifysgol Abertawe – y Ganolfan Eifftaidd
Prifysgol Aberystwyth, Oriel ac Amgueddfa'r Ysgol Gelfyddyd
Rheilffordd Fach y Rhyl
Storiel, Bangor
Tolldy a Phont Grog Conwy
Tŷ Aberconwy
Tŷ Weindio
Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd

### Bach

Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog
Amgueddfa ac Oriel Gelf Parc Howard
Amgueddfa Arberth
Amgueddfa Arforol Caergybi
Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli
Amgueddfa Dreftadaeth Blaina
Amgueddfa Forwrol Llŷn
Amgueddfa Glofa Cefn Coed
Amgueddfa Goffa Robert Owen
Amgueddfa Internal Fire
Amgueddfa Llandudno
Amgueddfa Llanidoes
Amgueddfa Lloyd George
Amgueddfa Penmaenmawr
Amgueddfa Porth-cawl
Amgueddfa Powysland
Amgueddfa Sir Faesyfed
Amgueddfa Syr Henry Jones
Amgueddfa Tref Caerfyrddin
Amgueddfa'r Bathdy Brenhinol
Amgueddfa'r Hen Gloch
Amgueddfa'r Môr Porthmadog
Bwthyn ac Amgueddfa Joseph Parry
Bwthyn Penrhos
Canolfan Treftadaeth a Gwaith Haearn y Bers
CARAD
Carchar Rhuthun
Plas Llanelly
Sefydliad Morwyr y Bermo
Tŷ Mawr Wybrnant
Ymddiriedolaeth Archifol Gwaith Glyn Ebwy
Ymddiriedolaeth Treftadaeth Gymunedol Porthaethwy

### Ni ddarparwyd ffigurau ymwelwyr

Amgueddfa Gatrodol Catrawd Frenhinol Cymru (Aberhonddu)
Amgueddfa'r Rhyl

# Atodiad B

## Datganiadau Cwmpas

Gofynnwyd i amgueddfeydd ddewis y Datganiad Cwmpas sy'n gweddu a disgrifio eu hamgueddfa orau. Mae'r rhifau a roddir i'r Datganiadau Cwmpas yn nodi lefelau ymarfer nid sgorau. Dim ond yr arferion hynny sy'n addas ar gyfer eu hamgylchiadau y dylai amgueddfeydd anelu atynt.

## Amgueddfeydd i Bawb

### Datblygu cynulleidfaoedd a marchnata'n strategol

1. Ni wneir unrhyw waith hyrwyddo, ymchwilio i ddefnyddwyr neu ddatblygu cynulleidfaoedd.
2. Caiff deunydd hyrwyddo sylfaenol (e.e. poster, taflen) a/neu ddatganiadau rheolaidd i'r wasg eu cynhyrchu.
3. Fel uchod a'r canlynol: Ymgynghorir yn ffurfiol â defnyddwyr yn achlysurol, a chesglir adborth gan ddefnyddwyr yn anffurfiol drwy lyfrau ymwelwyr, cardiau sylwadau, ac ymarferion ymgynghori â chyfeillion, grwpiau ffocws ac ati. Caiff adborth ei ddadansoddi, ac ymatebir iddo, caiff y canlyniadau eu bwydo'n ôl i'r broses gynllunio. Gallai fod rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.
4. Fel uchod a'r canlynol: Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael am y cyd-destun demograffig/cymdeithasol/economaidd y mae'r amgueddfa yn gweithredu ynddo; gwneir rhywfaint o waith ymchwil sylfaenol i'r farchnad/cesglir rhywfaint o ymateb yn systematig ac yn rheolaidd gan ddefnyddwyr; caiff pob gweithgarwch hyrwyddo ei gynllunio ar sail y canfyddiadau hyn (e.e. deunydd print, sylw yn y wasg a/neu hysbysebion y telir amdanynt) ac mae cyllideb benodol ar gael; caiff cynulleidfaoedd/grwpiau defnyddwyr penodol eu targedu (nad ydynt o reidrwydd yn newydd); ceir rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.
5. Fel uchod a'r canlynol: Gwneir gwaith ymchwil i'r farchnad, a chaiff ymateb defnyddwyr ei fonitro'n rheolaidd (o leiaf dwywaith y flwyddyn) gan ddefnyddio dulliau cyson; caiff gwaith marchnata/datblygu cynulleidfaoedd ei werthuso'n achlysurol; caiff gweithiwr proffesiynol ym maes marchnata ei gyflogi a/neu ceir mewnbwn rheolaidd ganddo; mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.
6. Fel uchod a'r canlynol; caiff defnyddwyr lleiafrifol/nad ydynt yn ddefnyddwyr traddodiadol eu targedu, a defnyddir dulliau priodol o gyfathrebu; caiff pob gweithgaredd marchnata a datblygu cynulleidfaoedd ei fonitro a'i werthuso; ymgynghorir â chynulleidfaoedd, a chaiff eu barn/ymatebion eu hintegreiddio yn y broses gynllunio; mae'r holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.

### Mynediad – Darparu ar gyfer dysgu ffurfiol

1. Ni chysylltwyd o gwbl â'r sector addysg ffurfiol. Ni ellir darparu ar gyfer ceisiadau gan  y sector addysg ffurfiol.
2. Ni chaiff y sector addysg ffurfiol ei dargedu'n weithredol, ond bydd grwpiau'n cynnal ymweliadau annibynnol a/neu mae sesiynau arbennig yn bosibl. Darperir o leiaf dau o'r canlynol: 1. Darlithoedd;
   2. Taflenni gwaith neu becynnau astudio;
   3. Cyfryngau electronig (gan gynnwys gwefan);
   4. Gweithgareddau chwarae rôl;
   5. Gweithdai creadigol; 6. Teithiau tywysedig;
   7. Gweithgareddau rhyngweithiol.
3. Fel uchod a'r canlynol: Bydd grwpiau'n cynnal ymweliadau annibynnol, mae deunydd cymorth cyfyngedig ar gael a chaiff rhai cysylltiadau eu creu â chwricwla ysgolion/colegau neu raglenni dysgu perthnasol; ceir dealltwriaeth o'r fframwaith 'Annog Dysgu'; ceir rhywfaint o wybodaeth am y sector addysg lleol, defnyddwyr posibl, a photensial addysgol yr amgueddfa; ymgynghorir rhywfaint â threfnwyr/arweinwyr grwpiau ynghylch y ddarpariaeth; gallai fod rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.
4. Fel uchod a'r canlynol: Caiff canlyniadau dysgu generig eu defnyddio i fesur effaith dysgu; ceir rhaglen o sesiynau uniongyrchol ar gyfer grwpiau; cynigir mynediad a/neu gyfleusterau i ymchwilwyr; ceir rhywfaint o ddeunydd cymorth sy'n gydnaws â chwricwla neu raglenni dysgu perthnasol; ceir dealltwriaeth ymarferol o'r sector addysg lleol, defnyddwyr posibl, a photensial addysgol yr amgueddfa; ceir mewnbwn o bryd i'w gilydd gan addysgwyr allanol; ceir rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.
5. Fel uchod a'r canlynol: Caiff canlyniadau dysgu cyffredinol eu pennu ar gyfer sesiynau a gyflwynir gan bobl sydd â sgiliau penodol a/neu arbenigedd addysgol; mae dros 50% o'r sesiynau/deunyddiau cymorth yn gydnaws â chwricwla neu raglenni dysgu perthnasol; ceir cyswllt rheolaidd ag addysgwyr allanol

sy'n cyfrannu'n anffurfiol i'r gwasanaeth; caiff sesiynau eu gwerthuso'n gyfunol; caiff addysgwr amser llawn ei gyflogi i ddatblygu a rheoli'r gwasanaeth; mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.

6. Fel uchod a'r canlynol: Ceir rhaglen o sesiynau uniongyrchol sy'n darparu ar gyfer ystod eang o oedrannau, galluoedd ac arddulliau dysgu; caiff amcanion dysgu ar gyfer sesiynau eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd gyda defnyddwyr; mae'r holl sesiynau/deunyddiau cymorth yn gydnaws â chwricwla neu raglenni dysgu perthnasol; caiff yr holl sesiynau/deunyddiau newydd eu treialu, a chynhelir ymarferion gwerthuso yn fewnol a/neu'n allanol; ceir cyswllt rheolaidd ag addysgwyr allanol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth; mae gwaith ymchwil yn diwallu anghenion dysgu'r sector ffurfiol, a chaiff canfyddiadau eu defnyddio i lywio gwaith datblygu'r gwasanaeth; mae'n 'gorff sy'n dysgu' fel y diffinnir yn y fframwaith 'Annog Dysgu'; mae'r holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.

## Mynediad – Darparu ar gyfer dysgu anffurfiol

1. Ni cheir darpariaeth fwriadol, ond mae arddangosfeydd ar gael.
2. Dim ond trwy drefniant y ceir cyswllt personol â'r staff/gwirfoddolwyr. Mae o leiaf un prif ddull ac un dull eilaidd o ddehongli ar gael ar ffurf: Labeli; Paneli arddangos; Systemau clyweled; Canllawiau neu gatalogau print; Gwybodaeth lafar gan y staff.
3. Fel uchod a'r canlynol: Caiff gwybodaeth ei darparu a chaiff dealltwriaeth ei meithrin ynghylch y casgliadau drwy sicrhau bod o leiaf dau o'r digwyddiadau/gweithgareddau canlynol ar gael: Darlithoedd; Taflenni gwaith neu becynnau astudio; Cyfryngau electronig (gan gynnwys gwefan); Gweithgareddau chwarae rôl; Gweithdai creadigol; Teithiau tywysedig; Gweithgareddau rhyngweithiol; ceir dealltwriaeth o'r fframwaith 'Annog Dysgu'; gellir trefnu bod dysgwyr/ymchwilwyr annibynnol yn cael mynediad i wybodaeth/casgliad nad arddangosir; ymgynghorir â defnyddwyr ynghylch y ddarpariaeth; gallai fod rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.
4. Fel uchod a'r canlynol: mae staff/gwirfoddolwyr ar gael i ymwelwyr ymwneud â nhw am o leiaf 40% o'r oriau agor, neu ar gyfer 30% o'r ardaloedd arddangos. Caiff canlyniadau dysgu generig eu defnyddio i fesur effaith dysgu; ceir rhaglen resymol o ddigwyddiadau, y mae gan rai ohonynt nodau dysgu penodol a chynulleidfaoedd targed penodol. Mae rhai elfennau dysgu rhyngweithiol uwch-dechnoleg/technoleg isel yn perthyn i'r arddangosfeydd. Ceir rhai deunyddiau dysgu i deuluoedd/plant a/neu oedolion (e.e. llwybrau, llawlyfrau). Ceir rhai arddangosfeydd dros dro a/neu newidiadau i arddangosfeydd parhaol. Ceir rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.
5. Fel uchod a'r canlynol: Ceir rhaglen o arddangosfeydd a/neu ddigwyddiadau rheolaidd, sy'n cynnwys gweithgareddau allgymorth ac sy'n targedu cynulleidfaoedd traddodiadol a rhai nad ydynt yn draddodiadol. Mae ystod o ddeunyddiau dysgu ac elfennau rhyngweithiol yn creu cyfleoedd dysgu ar gyfer pobl o bob oed a gallu. Caiff yr holl bethau uchod eu llunio gydag arbenigwr ar addysg, a chânt eu gwerthuso gyda defnyddwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.
6. Fel uchod a'r canlynol: Ceir rhaglen faith o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau a arweinir gan bobl sydd â sgiliau penodol a/neu arbenigedd addysgol. Caiff arddangosfeydd dros dro (rhai mewnol, rhai teithiol neu rai yn y gymuned) a rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau eu llunio gyda'r gymuned. Ceir deunyddiau dysgu mewn fformatau sy'n briodol i anghenion defnyddwyr lleiafrifol. Caiff gwaith ymchwil academaidd ei gyhoeddi. Caiff cyfleoedd eu creu i ddysgu am gasgliadau nad arddangosir. Ymchwilir i anghenion dysgu pobl o bob oed, a chaiff y canfyddiadau eu defnyddio i lywio rhaglen gyhoeddus o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau yn ogystal ag arddangosfeydd parhaol. Mae'n 'gorff sy'n dysgu' fel y diffinnir yn y fframwaith 'Annog Dysgu'. Mae'r holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.

## Mynediad – Arddangos

1. Ceir labeli sylfaenol a rhywfaint o wybodaeth ategol (e.e. testun, ffotograffau, mapiau, lluniadau). Mae'r labeli mewn llawysgrifen neu wedi'u teipio, nid yw'r arddangosfa wedi'i chynhyrchu "i safon broffesiynol".*
2. Mae'r arddangosfa wedi'i chynhyrchu "i safon broffesiynol" * ond cafodd y rhan fwyaf ohoni ei chynhyrchu mwy na 10 mlynedd yn ôl, neu cafodd hyd at 10% o'r arddangosfeydd eu hadnewyddu yn y 10 mlynedd diwethaf ond nid o reidrwydd "i safon broffesiynol". * Nid oes cynlluniau realistig wedi'u prisio ar gyfer gwaith diwygio neu adnewyddu.
3. Mae'r arddangosfa wedi'i chynhyrchu "i safon broffesiynol" * ond cafodd y rhan fwyaf ohoni ei chynhyrchu mwy na 10 mlynedd ar ôl , neu cafodd hyd at 10% o'r arddangosfeydd eu hadnewyddu yn y 10 mlynedd diwethaf ond nid o reidrwydd "i safon broffesiynol". * Ceir rhaglen fanwl wedi'i phrisio ar gyfer gwaith

ailarddangos. Cynhelir arddangosfeydd dros dro i arddangos eitemau o storfeydd, neu ceir arddangosfeydd sy'n ymweld â'r amgueddfa. Cafodd ailarddangosfeydd eu cynhyrchu'n ddiweddar heb waith gwerthuso neu fewnbwn gan ddefnyddwyr. Gallai fod rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.

4. Fel uchod a'r canlynol: Mae o leiaf 10% o'r arddangosfeydd wedi'u cynhyrchu i safon broffesiynol yn y 10 mlynedd diwethaf. Caiff yr arddangosfeydd eu newid yn rheolaidd er mwyn treialu dulliau/syniadau dehongli. Mae rhai agweddau wedi'u gwerthuso. Ymgynghorir ag arbenigwyr ar fynediad ac addysg, a gweithredir ar eu cyngor. Ceir rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithogn.
5. Fel uchod a'r canlynol: Mae o leiaf 25% o'r arddangosfeydd wedi'u cynhyrchu i safon broffesiynol yn y 10 mlynedd diwethaf Mae gan y rhaglen ailarddangos gynulleidfaoedd targed, a chaiff mewnbwn gan ddefnyddwyr ei ystyried. Mae rhai agweddau wedi'u gwerthuso. Mae arbenigwyr ar fynediad ac addysg yn rhan o'r holl broses. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.
6. Fel uchod a'r canlynol: Mae o leiaf 50% o'r arddangosfeydd wedi'u hadnewyddu yn y 10 mlynedd diwethaf; mae gwaith gwerthuso ffurfiannol a chyfunol wedi'i wneud, ac mae'r canlyniadau wedi'u bwydo'n ôl i arddangosfeydd cyfredol; mae'r holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog.

* I fod yn "i safon Proffesiynol" dylai arddangosfeydd fodloni yn llwyr o leiaf pump o'r meini prawf a restrir yn y Canllawiau Sbotolau, neu fod tri chwarter o'r ffordd i ymateb yn llawn bob un ohonynt.

### Mynediad – pobl anabl

1. Ni cheir unrhyw ymwybyddiaeth o namau corfforol, namau synhwyraidd, namau dysgu, namau gwybyddol na'r rhwystrau hynny yn y sefydliad, yr adeiladau neu'r gwasanaethau sy'n analluogi pobl, ac nid ymatebir iddynt.
2. Mae staff yr amgueddfa'n asesu rhwystrau posibl i'r sawl sydd â namau corfforol, synhwyraidd a deallusol.
3. Fel uchod a'r canlynol: Mae'r staff yn defnyddio rhestr wirio gydnabyddedig at ddiben archwilio wrth gynnal asesiad. Ceir rhai cyfleusterau (e.e. rampiau, teclynnau tywys clywedol, digwyddiadau ag iaith arwyddion) i oresgyn rhwystrau a nodir yn ystod asesiad. Ceir ymwybyddiaeth gyffredinol o oblygiadau'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae o leiaf un aelod o staff wedi cael Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
4. Fel uchod a'r canlynol: Mae gan reolwr yr amgueddfa a'r staff allweddol ddealltwriaeth dda o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Ymgynghorir â defnyddwyr anabl a phobl anabl nad ydynt yn ddefnyddwyr, er mwyn asesu rhwystrau posibl i'r sawl sydd â namau corfforol, synhwyraidd a deallusol, a lluniwyd rhaglen wedi'i phrisio i ymateb iddynt. Caiff o leiaf 30% o'r gwaith hwnnw ei gyflawni. Mae unrhyw fentrau newydd (mentrau cyfalaf neu wasanaethau) yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae o leiaf 30% o'r staff wedi cael Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ceir rhywfaint o ddarpariaeth ddwyieithog.
5. Fel uchod a'r canlynol: Ymdrechir i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cynhaliwyd archwiliad mynediad llawn gydag archwilwyr proffesiynol gan ymgynghori â phobl anabl. Mae cynllun wedi'i drefnu a'i brisio i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad, ac mae o leiaf 40% o'r gwaith wedi'i gyflawni. Mae o leiaf 50% o'r staff wedi cael Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a bwriedir ei ymestyn i gynnwys y gweddill.
6. Fel uchod a'r canlynol: Cydymffurfir yn llawn â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cynhaliwyd archwiliad mynediad llawn gydag archwilwyr proffesiynol gan ymgynghori â phobl anabl. Gweithredwyd pob argymhelliad er mwyn darparu mynediad llawn i bobl â namau corfforol, namau synhwyraidd, namau dysgu a namau gwybyddol. Parheir i ymgynghori â defnyddwyr anabl a phobl anabl nad ydynt yn ddefnyddwyr, a cheir rhaglen i adolygu'r ddarpariaeth a datblygu rhagor o welliannau. Mae pob aelod o staff wedi cael Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ceir rhaglen a chyllideb i ddiweddaru hyfforddiant yn rheolaidd.

## Casgliad i'r Genedl

### Monitro amgylcheddol

1. Ni wneir unrhyw waith monitro; ceir problemau amgylcheddol amlwg; ni cheir fawr ddim dealltwriaeth o faterion.
2. Ni wneir unrhyw waith monitro; ceir dealltwriaeth sylfaenol o faterion.
3. Gwneir rhywfaint o waith monitro; caiff offer eu storio a'u calibro yn ddigonol; ceir dealltwriaeth sylfaenol o faterion.
4. Gwneir gwaith monitro; caiff yr amodau y mae eu hangen ar gyfer casgliadau arbenigol eu nodi; caiff cofnodion eu cadw a'i gweithredu.
5. Ceir offer monitro sydd wedi'u cysylltu â

chyfrifiadur; caiff yr amodau y mae eu hangen ar gyfer casgliadau arbenigol eu nodi; caiff cofnodion eu cadw a'i gweithredu; caiff cofnodion eu dehongli.
6. Ceir offer monitro sydd wedi'u cysylltu â chyfrifiadur ac offer rheoli amgylcheddol; caiff yr offer monitro eu calibro'n rheolaidd; caiff yr amodau y mae eu hangen ar gyfer casgliadau arbenigol eu nodi; caiff cofnodion eu cadw, a gweithredir ar eu sail; mae data'n llywio gwaith cynllunio a'r gyllideb.

## Rheoli amgylcheddol

1. Ni wneir unrhyw waith rheoli; ceir problemau amgylcheddol amlwg; ni cheir fawr ddim dealltwriaeth o faterion.
2. Ni wneir unrhyw waith rheoli; ceir dealltwriaeth sylfaenol o faterion.
3. Gwneir rhywfaint o ymdrech i reoli'r amgylchedd; ceir dealltwriaeth sylfaenol o faterion.
4. Mae offer rheoli pwrpasol ar gael; caiff yr offer eu cynnal a'u cadw; caiff yr amgylchedd ei reoli am 50% o'r amser; caiff yr amodau y mae eu hangen ar gyfer casgliadau arbenigol eu nodi.
5. Mae offer rheoli pwrpasol ar gael a ddefnyddir ar y cyd ag offer monitro; caiff yr offer eu calibro, a cheir rhaglen o waith cynnal a chadw; caiff yr amgylchedd ei reoli am 75% o'r amser (neu fwy); mae 75% o'r amodau y mae eu hangen ar gyfer casgliadau arbenigol yn gyflawn.
6. Ceir offer rheoli soffistigedig sydd wedi'u cysylltu ag offer monitro; caiff yr amgylchedd ei reoli am 90-100% o'r amser; mae 90% o'r amodau y mae eu hangen ar gyfer casgliadau arbenigol yn gyflawn; caiff cofnodion eu cadw, a gweithredir ar eu sail; mae data'n llywio gwaith cynllunio a'r gyllideb.

## Storio a glanhau

1. Ni chaiff eitemau eu storio mewn man pwrpasol ar gyfer storio casgliadau; ni wneir fawr ddim gwaith glanhau; caiff eitemau nad ydynt yn perthyn i gasgliadau eu cadw mewn storfeydd gwrthrychau; ni chaiff eitemau eu trefnu na'u rhoi ar reseli neu mewn blychau; ni cheir unrhyw ymwybyddiaeth o broblemau posibl â phlâu.
2. Defnyddir ardaloedd storio pwrpasol; ceir ymwybyddiaeth o broblemau neu beryglon; mae'r ardaloedd storio yn orlawn i'r graddau nad oes unrhyw eitemau newydd yn cael eu caffael, neu y cyfyngir yn ddifrifol ar yr eitemau a gaffaelir; ni cheir cynllun storio; cynhelir archwiliadau achlysurol i chwilio am blâu; caiff yr ardaloedd storio eu glanhau weithiau.
3. Ceir storfeydd a gynlluniwyd; efallai y bydd y storfeydd yn orlawn o hyd – gwneir lle ar gyfer eitemau newydd a gaffaelir drwy bacio eitemau cyfredol yn agos i'w gilydd; mae modd mynd at wrthrychau unigol yn ddiogel; defnyddir deunydd pacio priodol i gadwraeth ar gyfer gwrthrychau sydd mewn perygl; ceir gwybodaeth am blâu, a defnyddir trapiau i'w dal; caiff yr ardaloedd storio eu glanhau'n rheolaidd; ceir trefniadau i'r cyhoedd gael mynediad i'r casgliadau a gaiff eu storio.
4. Gellir mynd at wrthrychau unigol yn hawdd; defnyddir deunydd pacio priodol i gadwraeth; cynhelir archwiliadau ar hap o'r amodau; caiff yr ardaloedd storio eu glanhau'n rheolaidd; ceir rhaglen monitro plâu; ceir man gweithio ar wahân yn y storfa.
5. Ceir ardaloedd storio mewnol, trefnus iawn sy'n ddigon mawr ar gyfer y casgliad cyfredol; ceir rhaglen lanhau/gofalu integredig; ceir cofnodion ynghylch lleoliad eitemau yn y storfeydd; caiff gwrthrychau bregus eu nodi; caiff gwrthrychau sy'n cyrraedd eu rhoi mewn cwarantin; cynhelir archwiliadau dethol o'r amodau.
6. Mae lle i ehangu; ceir rhaglen lanhau; ceir rhaglen integredig i reoli plâu; ceir rhaglen dreigl i archwilio'r amodau; ceir deunyddiau a dodrefn anadweithiol yn y storfeydd; ceir ardal astudio.

## Arddangos a glanhau

1. Ni wneir fawr ddim gwaith glanhau; ni cheir unrhyw ymwybyddiaeth o broblemau posibl â phlâu; mae'r casys arddangos (os oes rhai) o ansawdd gwael; mae'r ardal arddangos yn orlawn.
2. Ceir ymwybyddiaeth o broblemau neu beryglon i wrthrychau ac ymwelwyr; mae'r ardal arddangos yn orlawn; cynhelir archwiliadau achlysurol i chwilio am blâu; caiff mannau cyhoeddus eu glanhau'n rheolaidd; mae'r casys arddangos yn lân ac yn fodern.
3. Ceir ymwybyddiaeth o broblemau neu beryglon i wrthrychau ac ymwelwyr; mae'r arddangosfeydd yn daclus ac yn drefnus iawn, ond gall fod yn anodd i'r staff fynd atynt; mae strwythurau cynnal, priodol i gadwraeth, ar gael i arddangos gwrthrychau sydd mewn perygl; ceir gwybodaeth am blâu, a defnyddir trapiau i'w dal; ceir rhai casys arddangos sydd o ansawdd da.
4. Gellir mynd at wrthrychau yn hawdd; mae'r arddangosfeydd yn daclus ac mae'n hawdd i'r staff fynd atynt; mae strwythurau cynnal, priodol i gadwraeth, ar gael i arddangos gwrthrychau sydd mewn perygl; cynhelir archwiliadau ar hap o'r amodau; gwneir gwaith glanhau yn rheolaidd; ceir rhaglen monitro plâu; mae'r casys

arddangos yn ddiogel ac o ansawdd da.

5. Ceir arddangosfeydd trefnus iawn ar gyfer y casgliad cyfredol; ceir rhaglen lanhau/gofalu integredig; ceir cofnodion ynghylch lleoliad eitemau mewn arddangosfeydd; caiff gwrthrychau bregus eu nodi; caiff gwrthrychau sy'n cyrraedd eu rhoi mewn cwarantin; cynhelir archwiliadau dethol o'r amodau; ceir rhai casys arddangos sy'n briodol i gadwraeth.
6. Ceir arddangosfeydd trefnus iawn; ceir rhaglen lanhau; ceir cofnodion ynghylch lleoliad eitemau mewn arddangosfeydd ynghyd â ffotograffau ohonynt; ceir rhaglen integredig i reoli plâu; ceir rhaglen dreigl i archwilio'r amodau; mae mwyafrif y casys arddangos yn rhai priodol i gadwraeth.

### Dogfennau cofnodi

1. Ni cheir fawr ddim dogfennau cofnodi; nid oes yr un weithdrefn SPECTRUM ar waith.
2. Mae ansawdd y dogfennau cofnodi'n wael; mae 50% o weithdrefnau craidd SPECTRUM (h.y. rhai'n ymwneud â labeli, cofnodion cyrraedd ac ymadael) ar waith; mae llawer o waith wedi ôl-gronni; nid oes cynllun nac amserlen ar gyfer clirio'r gwaith hwnnw.
3. Defnyddir holl weithdrefnau craidd SPECTRUM; ceir cynllun creu dogfennau cofnodi ar gyfer y gwaith sydd wedi ôl-gronni; mae gwaith ar y gweill i greu dogfennau cofnodi ôl-weithredol.
4. Defnyddir gweithdrefnau craidd SPECTRUM; mae 60% o'r dogfennau cofnodi ôl-weithredol yn gyflawn; ceir llawlyfr gweithdrefnau ar gyfer creu dogfennau cofnodi.
5. Defnyddir ystod eang o weithdrefnau SPECTRUM; mae dros 75% o'r dogfennau cofnodi ôl-weithredol yn gyflawn; cofnodir gwybodaeth am hawlfraint; caiff y staff hyfforddiant ar weithdrefnau ar gyfer creu dogfennau cofnodi.
6. Fel uchod a'r canlynol: Ceir dogfennau cofnodi cynhwysfawr a chyflawn; ceir rhaglen archwilio casgliadau; caiff arwyddocâd casgliadau ei ddeall a'i gofnodi**.

SPECTRUM yw safon y DU ar gyfer creu dogfennau cofnodi mewn amgueddfeydd. Trowch at Ganllawiau Sbotolau i gael mwy o wybodaeth.

** Trowch at Ganllawiau Sbotolau i gael esboniad o ystyr 'arwyddocâd'.

## Gweithio'n Effeithiol

### Polisi a chynllunio

1. Ni cheir unrhyw flaengynllun, neu ceir un nad yw'n cyfeirio o gwbl at fynediad neu wasanaethau cyhoeddus.
2. Mae gan y blaengynllun ddatganiadau manwl neu bolisïau ar wahân ar gyfer o leiaf 4 o'r canlynol: polisi croesawu ymwelwyr; casgliadau ac ymchwil; gwaith dehongli ac arddangosfeydd (parhaol a dros dro); gwaith rhaglennu digwyddiadau a gweithgareddau ac ati; gwasanaethau dysgu ac addysg; mynediad; datblygu cynulleidfaoedd a marchnata; datblygu'r gweithlu; cyhoeddiadau a chyfathrebu; gofalu am gwsmeriaid; allgymorth; gwerthu nwyddau a chynhyrchu incwm; cynllun ar gyfer trychineb/argyfwng/parhad busnes.
3. Mae gan y blaengynllun ddatganiad o ddiben, nodau ac amcanion allweddol, amcanion penodol, cynllun gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn nesaf. Yn ogystal, mae ganddo ddatganiadau neu bolisïau ar wahân sy'n ymwneud ag o leiaf 4 o'r uchod.
4. Fel uchod a'r canlynol: Mae'r blaengynllun wedi'i gymeradwyo gan y corff llywodraethu; mae'r blaengynllun yn cynnwys o leiaf 8 o'r datganiadau neu'r polisïau a restrir yng nghwmpas 2. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u llunio, gan ymgynghori â'r staff, sy'n rhoi manylion am gyfrifoldebau'r staff, dangosyddion perfformiad ac amserlen ar gyfer gwaith adolygu parhaus. Mae goblygiadau o ran hyfforddiant wedi'u hasesu ac mae adnoddau wedi'u clustnodi. Mae'r blaengynllun a'r polisïau yn adlewyrchu dealltwriaeth o 'Annog Dysgu'.
5. Fel uchod a'r canlynol: Ceir cyllidebau penodol ar gyfer gofalu am gasgliadau, addysg, marchnata a gwella mynediad; caiff rhywfaint o adborth o ymarferion ymgynghori â'r cyhoedd/ymchwilio i'r farchnad ei ddefnyddio wrth gynllunio; caiff staff arbenigol eu cyflogi neu sicrheir arbenigedd drwy gontract er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau.
6. Fel uchod a'r canlynol: Mae gan y blaengynllun ddatganiadau neu bolisïau ar wahân sy'n ymwneud â phob agwedd ar gwmpas 2. Mae canlyniadau ymarferion ymgynghori â'r cyhoedd, gwerthuso, ac ymchwilio i'r farchnad defnyddwyr gwirioneddol a phosibl yn llywio pob penderfyniad ynghylch darparu gwasanaethau a datblygu; cesglir data priodol yn systematig, fel y gellir cymharu'r amgueddfa â darparwyr eraill a'i "meincnodi".
7. Mae gwybodaeth am y fframwaith 'Annog Dysgu' ar gael yng Nghanllawiau Sbotolau.

### Datblygu staff a gwirfoddolwyr

1. Ni chaiff y staff na'r gwirfoddolwyr hyfforddiant sydd y tu hwnt i hyfforddiant sefydlu sylfaenol neu gyflwyniad i weithdrefnau hanfodol.

2. Caiff anghenion y staff a'r gwirfoddolwyr o ran hyfforddiant eu hasesu'n rheolaidd; ceir ymwybyddiaeth gyffredinol o ganllawiau a gweithdrefnau hanfodol; ceir ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion sy'n effeithio ar weithrediadau'r amgueddfa; dim ond staff a/neu gwirfoddolwyr cymwys sy'n ymgymryd â dyletswyddau.
3. Fel uchod a'r canlynol: Mae staff a gwirfoddolwyr newydd yn cael hyfforddiant sefydlu llawn; mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r Cod Moeseg sydd gan y Gymdeithas Amgueddfeydd ar gyfer Amgueddfeydd; mae hyfforddiant sefydlu ar gael, a chaiff ei gynnig fel mater o drefn i aelodau newydd o'r corff llywodraethu; caiff anghenion y staff/gwirfoddolwyr o ran hyfforddiant eu hasesu; mae cynllun hyfforddi cyffredinol ar waith, a darperir hyfforddiant; weithiau bydd y staff a gwirfoddolwyr yn mynychu seminarau a chyrsiau hyfforddi allanol.
4. Fel uchod a'r canlynol: Caiff anghenion staff a/neu wirfoddolwyr unigol o ran hyfforddiant, addysg a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol eu nodi; mae gwybodaeth am ystod o faterion sy'n effeithio ar waith rhedeg amgueddfeydd ar gael i'r holl staff a'r holl wirfoddolwyr os gofynnir amdani; mae staff dros dro a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant sylfaenol yn fewnol; weithiau bydd y staff a'r gwirfoddolwyr yn mynychu seminarau a chyrsiau hyfforddi allanol; caiff y staff eu hannog i sôn am unrhyw broblemau, a gweithredir ar eu sylwadau.
5. Fel uchod a'r canlynol: mae cyllideb benodol ar gael ar gyfer datblygu staff; mae gwybodaeth am ystod o faterion sy'n effeithio ar waith rhedeg amgueddfeydd ar gael i'r holl staff a'r holl wirfoddolwyr, ar ffurf sesiynau hyfforddi ymarferol a rheolaidd, deunydd a gyhoeddir a dogfennau mewnol. Bydd y staff a'r gwirfoddolwyr yn mynychu seminarau a chyrsiau hyfforddi allanol yn rheolaidd; caiff hyfforddiant ei werthuso.
6. Fel uchod a'r canlynol: Caiff unrhyw ddarpariaeth ac anghenion o ran hyfforddiant eu hadolygu'n rheolaidd yn rhan o gylch cynllunio'r amgueddfa; mae gan yr amgueddfa ganllawiau ynghylch ymddygiad contractwyr/darparwyr gwasanaeth ar y safle; mae gan yr amgueddfa statws 'Buddsoddwr mewn Pobl' (os rhiant-gorff yr amgueddfa sydd â statws 'Buddsoddwr mewn Pobl', rhaid bod y statws hwnnw'n berthnasol yn benodol i'r amgueddfa.)

## Darparu adeiladau addas

1. Mae'r adeilad o ansawdd gwael neu mae mewn cyflwr gwael; nid yw'r amgueddfa yn gyfrifol am waith cynnal a chadw'r adeilad ac nid oes ganddi unrhyw reolaeth ar waith o'r fath; nid oes gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac ni cheir cyllideb; ni chaiff unrhyw waith atgyweirio ei gyflawni; nid oes staff yn yr adeilad a phrin yr ymwelir ag ef.
2. Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael; nid yw'r amgueddfa yn rheoli gwaith cynnal a chadw'r adeilad, ond ymgynghorir â hi ynghylch gwaith cynnal a chadw cyfyngedig; mae cyllideb fach iawn ar gael, ac nid yr amgueddfa sy'n ei rheoli o reidrwydd; caiff gwaith atgyweirio hanfodol ei gyflawni fel y bo angen yn unig; mae'r adeilad ar agor yn dymhorol, a dim ond yn ystod ei oriau agor yr ymwelir ag ef.
3. Nid oes gwynt na dŵr yn dod i mewn i'r adeilad; mae'n adeilad cadarn, ac mae pob llawr yn gallu cynnal ei lwyth yn ddiogel; ymwelir â'r holl adeiladau, a chânt eu harchwilio'n rheolaidd (gan gynnwys yr adeiladau nad oes neb na dim ynddynt fel rheol); caiff peiriannau ac offer eu harchwilio'n rheolaidd gan y staff; caiff bygythiadau posibl i gasgliadau eu nodi a'u hasesu; mae'r amgueddfa yn rheoli gwaith cynnal a chadw'r adeiladau (neu mae'n dylanwadu'n gryf ar y gwaith hwnnw); caiff gwaith cynnal a chadw hanfodol ei gyflawni; mae'r amgueddfa yn dylanwadu ar y gyllideb.
4. Fel uchod a'r canlynol: Ceir trefniadau i gynnal a chadw'r adeiladau a'r cyfleustodau fel mater o drefn; bydd unigolyn cymwys yn llunio adroddiad rheolaidd am gyflwr yr adeilad; caiff mannau lle gallai fermin, pryfed a llwch ddod i mewn i'r adeilad eu nodi a'u selio; caiff y staff sy'n gyfrifol am gasgliadau wybod o flaen llaw am waith adeiladu.
5. Fel uchod a'r canlynol: Mae cynllun gweithredu ar gael i roi argymhellion adroddiadau rheolaidd ar waith; caiff contractwyr sy'n gweithio ar y safle wybodaeth am y goblygiadau posibl ar gyfer casgliadau, a chânt eu goruchwylio; caiff Meincnodau ar gyfer Gofalu am Gasgliadau eu defnyddio i wella amodau.
6. Fel uchod a'r canlynol: Caiff y cynllun rheoli adeiladau ei adolygu'n rheolaidd, a chaiff argymhellion eu gweithredu; caiff adroddiadau am gyflwr adeiladau eu defnyddio i gynllunio; cedwir cofnodion o'r holl waith adeiladu, cynnal a chadw ac archwilio; ymgynghorir â gwasanaeth neu banel cynghori ar gadwraeth wrth gynllunio unrhyw waith adeiladu.

# Atodiad C

## Grŵp craidd o amgueddfeydd sydd wedi cyflwyno data ar gyfer pob arolwg

Amgueddfa Abertawe
Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Amgueddfa ac Oriel Brycheiniog
Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd
Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa
Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod
Amgueddfa ac Oriel Gelf Parc Howard
Amgueddfa Arberth
Amgueddfa Arforol Caergybi
Amgueddfa Cas-gwent
Amgueddfa Ceredigion
Amgueddfa Diwydiannol Cydweli
Amgueddfa Dyffryn Maes Glas
Amgueddfa Gatrodol Catrawd Frenhinol Cymru (Aberhonddu)
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Amgueddfa Goffa Robert Owen
Amgueddfa Lechi Cymru
Amgueddfa Llandudno
Amgueddfa Llanidloes
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cenedlaethol
Amgueddfa Lloyd George
Amgueddfa Maenor Scolton
Amgueddfa Nelson a Chanolfan Hanes Lleol
Amgueddfa Pontypridd
Amgueddfa Pont-y-pŵl
Amgueddfa Porthcawl
Amgueddfa Powysland
Amgueddfa Rheilffyrdd Bach Cul
Amgueddfa Sir Faesyfed
Amgueddfa Sirol Caerfyrddin
Amgueddfa Syr Henry Jones
Amgueddfa Wlân Genedlaethol
Amgueddfa'r Hen Gloch
Amgueddfa'r Fenni
Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
Amgueddfa'r Rhyl
Big Pit: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru
Bwthyn Gweithiwr Haearn Joseph Parry
Bwthyn Penrhos
Canolfan Treftadaeth a Gwaith Haearn y Bers
Castell Penrhyn
Llety'r Barnwr
Oriel Gelf Glynn Vivian
Oriel Ynys Môn
Plas Yn Rhiw
Prifysgol Abertawe – y Ganolfan Eifftaidd
Prifysgol Aberystwyth, Oriel ac Amgueddfa'r Ysgol Gelfyddyd
Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
Sefydliad y Morwyr, Bermo
Tollty a Phont Grog Conwy
Tŷ Aberconwy
Tŷ Mawr Wybrnant
Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan
Yr Amgueddfa Cyflymder